



Cynghor Sir Penfro

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26





**MAE MAINT YR HER
YN SYLWEDDOL,
OND AR Y CYD Â'N
PARTNERIAID RYDYM
YN YMRWYMEDIG I
HELPU'R RHAI MUYAF
AGORED I NIWED YN
EIN CYMUNEDAU
LEDLED SIR BENFRO.**



Cynnwys

Rhagair	5
Diben y Strategaeth	6
Y Cyd-destun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol	8
Gweledigaeth ac Egwyddorion	20
Datganiad o Angen	24
Blaenoriaethau Strategol	36
Ymgysylltu â Rhanddeiliaid	40
Aseidiadau Effaith	42
Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth	44
Atodiad A: Cynllun Gweithredu	47
Atodiad B: Y Dirwedd o ran Polisiâu Cenedlaethol	58



Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Cyngor Sir Penfro 2022-2026.

Mae'r Strategaeth yn adeiladu ar yr ymdrechion presennol a'r cynnydd sy'n cael ei wneud nid dim ond gan yr Awdurdod Lleol, ond hefyd ei randdeiliaid a phartneriaid allweddol i edrych ymlaen a datblygu cartrefi a datrysiadau i ateb y galw yn awr ac yn y dyfodol ac atal digartrefedd yn y dyfodol.

Ceir cydnabyddiaeth glir hefyd i'r dull 'pawb i mewn a neb wedi'i adael allan' ac ystyriaeth ofalus i sicrhau bod ein datrysiadau'n diwallu anghenion ein cymunedau, sy'n aml yn amlweddog ac yn amrywiol o ran eu natur. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r ystod o fathau o lety i roi dyfodol disgleiriach a chynaliadwy i bobl, a lle na ellir atal digartrefedd, sicrhau ei fod yn fyr ac nad yw'n ailddigwydd.

Rydym yn croesawu'r dull ailgartrefu'n gyflym o ymdrin â digartrefedd a'r cymorth ariannol ac arweiniad ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i'n cynorthwyo i gyflymu llawer o'n rhaglenni datblygu tai cymdeithasol ni, a rhai ein partneriaid, a fydd yn cynyddu'r arfer o greu cartrefi fforddiadwy, carbon isel o safon uchel yn gyflym ac ar raddfa fawr i weithio i ddiwallu anghenion ein cymunedau yn

y dyfodol mewn modd gwell. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd y sector rhentu preifat i geisio datrysiadau i leihau digartrefedd, felly edrychaf ymlaen at gryfhau ein perthynas â'r sector hwn yn y dyfodol i geisio datrysiadau tai cynaliadwy ar gyfer ein trigolion.

Tra bo hyn yn paratoi'r ffordd ar gyfer datrysiadau arloesol trwy waith atal gwell ac ymatebion cyflym lle mae digartrefedd yn y cwestiwn, rydym hefyd yn cydnabod yr heriau sylweddol sydd o'n blaenau.

Gyda phocedi o lefelau amddifadedd lleol sydd eisoes yn uchel, pwysau oherwydd costau byw cynyddol, rhenti uchel yn y farchnad a her sylweddol cynllunio ar gyfer rhoi'r gorau i ddefnydd gormodol o lety dros dro, mae maint yr her yn sylweddol, ond ar y cyd â'n partneriaid rydym yn ymrwymedig i helpu'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymunedau ledled Sir Benfro.

Rwyf felly'n croesawu ac yn cymeradwyo'r strategaeth hon i roi inni'r fframwaith strategol ar gyfer cymorth tai ac atal digartrefedd yn Sir Benfro.

Y Cyngorydd Michelle Bateman
Yr Aelod Cabinet dros Dai



Diben y Strategaeth

Mae'r Strategaeth hon yn nodi'r dull y bydd Cyngor Sir Penfro'n ei ddefnyddio i barhau i gefnogi ein trigolion mwyaf agored i niwed – y rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu'n profi digartrefedd a'r rhai y mae arnynt angen cymorth i gynnal eu tenantiaethau a byw fel rhan o'u cymunedau.

Ers pandemig Covid-19 rydym wedi cynyddu'r gwasanaethau y mae'r Cyngor yn eu darparu i sicrhau bod pawb y mae arnynt angen cysgodfan yn cael eu cartrefu ac yn gallu cael cymorth. Mae llawer mwy y mae angen i ni ei wneud i atal digartrefedd a darparu'r ystod a'r niferoedd o unedau o lety y mae eu hangen i ateb y galw. Rydym eisoes wedi gwneud cynnydd o ran y ffordd yr ydym yn cefnogi pobl pan ydynt yn cysylltu â ni gyntaf i gael cymorth gyda thai trwy ein partneriaeth gyda'r trydydd sector. Mae'r cymorth a'r llety yr ydym yn eu darparu ar gyfer pobl â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau a phobl ifanc sy'n wynebu risg o ddigartrefedd yn dal i fod yn flaenoriaeth i ni. Mae'r cyfnod hwn yn dal i fod yn gryn

her ac rydym yn cydnabod bod angen i ni fod yn barod ar gyfer niferoedd cynyddol o bobl y bydd angen help arnynt gyda thai, gydag anghenion mwyfwy cymhleth, a bydd y strategaeth hon yn ein helpu i ymateb i'r twf hwn yn y galw.

Wedi'u cynnwys yn y ddogfen hon mae blaenoriaethau Cyngor Sir Penfro a'r asiantaethau sy'n bartneriaid i ni ar gyfer atal digartrefedd, lleddfu digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai dros y 4 blynedd nesaf (2022-26). Mae'n diweddarau blaenoriaethau cynharach a oedd wedi'u cynnwys yn Strategaeth Ddigartrefedd flaenorol y Cyngor, a Chynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai ar gyfer 2021-22. Cafodd datblygiad y blaenoriaethau ei oleuo gan ymarfer cynhwysfawr i asesu anghenion a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid o fewn y Cyngor, rhanddeiliaid allanol megis y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf yn ogystal â darparwyr gwasanaethau cymorth a phobl y mae arnynt angen cymorth.

Mae'r Grant Cymorth Tai'n elfen allweddol o'r strategaeth ar y cyfan.

Rhaglen grant ymyrryd yn gynnar yw hon i gefnogi gweithgarwch sy'n atal pobl rhag dod yn ddigartref, yn sefydlogi eu sefyllfa o ran tai neu'n helpu pobl a allai ddod yn ddigartref i ddod o hyd i lety a'i gadw. Mae'r grant wedi'i fwriadu i helaethu, ategu a chefnogi gwasanaethau statudol, gan felly sicrhau bod yr arlwy leol ar y cyfan yn helpu pobl i symud i mewn i'r cartrefi cywir, gyda'r cymorth cywir i lwyddo. Mae'n gwneud cyfraniad sylweddol at roi Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, sy'n canolbwyntio ar atal digartrefedd, ar waith. Dylai gwasanaethau a gefnogir trwy'r Grant Cymorth Tai ganolbwyntio ar unigolion a mynd i'r afael â phroblemau lluosog y mae pobl sy'n ddigartref neu'n debygol o ddod yn ddigartref yn aml yn eu hwynebu e.e. dyled, heriau o ran cyflogaeth, camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a rhywiol a phroblemau iechyd meddwl. Yn y pen draw dylai'r gwasanaethau leihau'r angen am ymyriadau costus yn y meysydd hyn gan wasanaethau cyhoeddus eraill.

Mae cynllunio strategol yn allweddol i sicrhau bod y Grant Cymorth Tai a dyletswyddau statudol yn gyson â'i gilydd i atal a lleddfu digartrefedd a chomisiynu gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai mewn modd effeithiol.

Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod digartrefedd yn cael ei atal a bod pobl y mae angen gwasanaethau arnynt yn cael eu cefnogi'n briodol. Bydd hyn hefyd yn helpu i sicrhau y ceir gwerth am arian wrth ddefnyddio'r grant. Mae Llywodraeth Cymru'n ei gwneud yn ofynnol llunio un strategaeth sy'n ymgorffori ein gwaith atal digartrefedd a chymorth gyda digartrefedd ac sy'n cwmpasu'r ddyletswydd digartrefedd statudol a ariennir trwy'r setliad refeniw a gwasanaethau ataliol, anstatudol a ariennir trwy'r Grant Cymorth Tai. Mae'r strategaeth yn cydnabod y gydymddibyniaeth rhwng yr elfennau hyn ac yn fwy eang â gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n rhoi cymorth i bobl agored i niwed.

Y Cyd-destun Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

Y Cyd-destun Cenedlaethol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw ffocws cyson ar drechu digartrefedd yng nghyd-destun effaith hirdymor polisi Llywodraeth y DU, mewn perthynas â chyni cyllidol a chymorth lles, a meysydd polisi eraill sydd heb eu datganoli sy'n cael effaith ar ddigartrefedd megis gwaith yr Heddlu a Charchardai.

O dan Ran 2 o **Ddeddf Tai (Cymru) 2014**, mae gan yr awdurdod lleol ddyletswydd newydd a chryfach i atal a lleddfu digartrefedd sydd wedi arwain at gryfhau trefniadau partneriaeth lleol.

Yr egwyddor arweiniol o hyd yw atal digartrefedd, ond lle nad yw hyn yn bosibl, sicrhau ei fod yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. Ceir ymrwymiad newydd i ddiwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol fel eu bod yn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym. Bydd deall yr hyn sy'n gweithio, yr hyn sy'n addawol a'r hyn nad yw'n effeithiol yn hollbwysig i alluogi Llywodraeth Cymru i gyrraedd ei nodau polisi.

Yn eu tro, mae nifer o egwyddorion allweddol yn tanategu dull Llywodraeth Cymru o atal digartrefedd, a dylai'r rhain gael eu cynnwys ar draws gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau wedi'u comisiynu. Maent fel a ganlyn:

- Y camau atal cynharaf yw'r rhai mwyaf effeithiol a mwyaf cost-effeithiol a dylai'r rhain wastad fod yn ddewis cyntaf o blith yr holl ymyriadau.
- Mae trechu ac atal digartrefedd yn fater sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau cyhoeddus – yn hytrach nag yn 'fater tai'.
- Dylai'r holl wasanaethau wneud yr unigolyn yn ganolog a chydweithio mewn ffordd sy'n deall trawma.
- Dylid defnyddio'r dyletswyddau yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 fel y llinell amddiffyn olaf – nid y gyntaf – a dylai'r holl wasanaethau weithio i ysbryd nid dim ond llythyren y ddeddf.
- Dylai polisi, y drefn darparu gwasanaethau ac arfer gael eu goleuo a'u llunio mewn modd cydgynhyrchiol a chan y rhai â phrofiad personol.

Mae polisi ac arfer ym maes tai a digartrefedd wedi parhau i esblygu yn y cyfnod ers i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ddod i rym, a gall y Cyngor ddisgwyl y bydd angen ymateb ymhellach i gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar y lefel genedlaethol i gefnogi awdurdodau lleol gyda'u heriau tai. Yn fwyaf diweddar, mae hyn yn cynnwys ymrwymïadau a wnaed yn **Rhaglen Lywodraethu (2021)** Llywodraeth Cymru.

Mae hon yn amlinellu ymrwymïadau allweddol i ddeddfu mewn perthynas â digartrefedd a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Yn benodol, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- Ystyried cyfleoedd radical i ddiwygio'r gwasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael gofal.
- Diwygio gwasanaethau digartrefedd yn sylfaenol er mwyn canolbwyntio ar atal ac ailgartrefu'n gyflym.
- Cefnogi datblygiadau tai arloesol i ddiwallu anghenion gofal.
- Gwella cydweithio ar draws gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol, gan ddefnyddio cyfrifoldebau rhianta corfforaethol.

Mae ymrwymïadau ychwanegol a ymgorfforwyd fel rhan o'r Rhaglen Lywodraethu o fewn y Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur a Phlaid Cymru (Tachwedd 2021) yn cynnwys:

- Gweithredu ar unwaith ac yn radical i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn ail gartrefi a thai anfforddiadwy, gan ddefnyddio'r system gynllunio, y system eiddo a'r system drethu.
- Sefydlu Unnos, cwmni adeiladu cenedlaethol, i helpu cynghorau a landlordiaid cymdeithasol i wella'r cyflenwad o dai cymdeithasol a fforddiadwy.
- Cyhoeddi Papur Gwyn a fydd yn cynnwys cynigion ar gyfer hawl i gartref digonol, y rôl y gallai system rhenti teg (rheoli rhenti) ei chwarae o ran gwneud y farchnad rhentu preifat yn fforddiadwy i bobl leol ar incwm lleol a dulliau newydd i wneud cartrefi'n fforddiadwy.
- Rhoi diwedd ar ddigartrefedd trwy ddiwygio cyfraith tai, gan gyflwyno **Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016** i roi mwy o sicrwydd i rentwyr a gweithredu argymhellion a roddwyd i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 mewn perthynas â dull holistaidd o ymdrin â'r mater hwn.

Bydd mabwysiadu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) Llywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2022 yn dod â newidiadau sylweddol, gan gryfhau hawliau a mesurau diogelu tenantiaid a hynny'n cynnwys:

- Disodli tenantiaethau a thrwyddedau cyfredol, gan gynnwys tenantiaethau byrddaliadol sicr, tenantiaethau sicr a thenantiaethau diogel â chontractau meddiannaeth diogel (a roddir ar y cyfan gan landlordiaid cymunedol – awdurdodau lleol a chymdeithasau tai) a chontractau meddiannaeth safonol (a roddir yn gyffredinol gan landlordiaid preifat).
- Mwy o ddyletswyddau ar landlordiaid i nodi priod ddyletswyddau'r landlord a deiliad y contract (tenant).

- Cyfnod hysbysu byrraf a ganiateir ar gyfer terfynu contract lle nad oes bai, sef 6 mis a gofyniad bod o leiaf 6 mis wedi mynd heibio ers dechrau contract cyn y rhoddir unrhyw hysbysiad o'r fath.
- Diogelu deiliaid contractau'n fwy rhag cymalau terfynu, y gall landlordiaid eu rhoi dim ond lle bodlonir amodau penodol.
- Gofyniad bod pob eiddo ar rent yn ffit i bobl fyw ynddo a bod landlordiaid yn cadw strwythur yr adeilad a'r tu allan i'r adeilad mewn cyflwr da.
- Mesurau diogelu ar gyfer tenantiaid sy'n weddill ac sy'n ddarostyngedig i gontract ar y cyd lle mae un yn gadael yr eiddo.
- Hawliau olyniaeth contract ychwanegol i rai grwpiau, gan gynnwys rhai gofalgwyr.

Bydd y newidiadau hyn yn dwyn goblygiadau ar gyfer awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill â dyletswyddau i atal a lleddfu digartrefedd, o ran tenantiaid presennol neu ddeiliaid contractau'n cael eu diogelu'n fwy rhag y risg o ddod yn ddigartref, ond hefyd o bosibl ar gyfer argaeledd eiddo addas mewn ardal a landlordiaid preifat sy'n fodlon gosod.

Ceir rhestr lawn o ddatblygiadau polisi cenedlaethol o'r fath sydd wedi dylanwadu ar y Strategaeth hon yn Atodiad B.



Mae dull amlasiantaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn o ymdrin â digartrefedd yn gofyn cyfraniad gan, ac aliniad â gwasanaethau eraill. Mae'r meysydd gwasanaeth hyn eu hunain yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth a pholisi penodol, y maent i gyd yn cyduno'n fras o gwmpas egwyddorion atal/ ymyrryd yn gynnar, cymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, hybu annibyniaeth a darparu datrysiadau cynaliadwy. Caiff meysydd pwysig o ran deddfwriaeth a pholisi perthnasol eu nodi isod.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ceisio cryfhau trefniadau llywodraethu presennol ar gyfer gwella llesiant cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru i sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae angen i gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl am yr hirdymor, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau, a'i gilydd a cheisio atal problemau a defnyddio dull mwy cydgysylltiedig.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwella'r deilliannau llesiant i bobl y mae arnynt angen gofal a chymorth, a gofalwyr y mae arnynt angen cymorth a chydlynu a phartneriaeth gan awdurdodau cyhoeddus gyda golwg ar wella llesiant pobl. Mae'r Ddeddf yn cydnabod yr angen am fwy o wasanaethau ymyrryd yn gynnar a chymorth dwys cynhwysfawr. Ceir dyletswydd i awdurdodau lleol gynnal a gwella llesiant pobl mewn meysydd megis addysg, hyfforddiant a hamdden, llesiant cymdeithasol ac economaidd ac iechyd meddwl a chorfforol a llesiant emosiynol.

Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Nod y Ddeddf yw gwella ymateb y sector cyhoeddus yng Nghymru i gam-drin a thrais trwy wella trefniadau i hybu ymwybyddiaeth o, ac atal, amddiffyn a chefnogi dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae dioddefwyr cam-drin a thrais o'r fath yn grŵp cleientiaid arwyddocaol ar gyfer gwasanaethau tai. Mae'r Ddeddf yn pwysleisio'r ffocws ar ddulliau atal a phartneriaeth o weithio gyda Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Cynllun Cyflawni ar Gamddefnyddio Sylweddau: 2019 - 2022 (Cymru)

Mae hwn yn nodi blaenoriaethau polisi a gweithredol allweddol Llywodraeth Cymru ac wedi cael ei adolygu i ystyried ble y mae angen ei ddiweddarau yng ngoleuni COVID-19. Mae'r adolygiad yn nodi meysydd blaenoriaeth sy'n cynnwys ymateb i broblemau iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd ac sy'n gyffredin mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau, gan sicrhau trefniadau cryf ar gyfer gweithio mewn partneriaeth gyda gwasanaethau tai a digartrefedd i roi cymorth pellach i'r rhai â phroblemau camddefnyddio sylweddau sy'n ddigartref neu'n wynebu risg o ddod yn ddigartref a gwella mynediad at wasanaethau a sicrhau bod pobl yn cael y cymorth a'r driniaeth pan fo'u hangen arnynt.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae'r Ddeddf hon yn diogelu pobl y gwahaniaethir yn eu herbyn oherwydd canfyddiad bod ganddynt, neu eu bod yn gysylltiedig â rhywun sydd â nodwedd warchoddedig. Mae diogelu'n berthnasol i ddarparu gwasanaethau a swyddogaethau cyhoeddus. Cyflwynwyd Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd yn 2020 sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, wrth wneud penderfyniadau strategol megis penderfynu ar flaenoriaethau a phennu amcanion, ystyried sut y gallent helpu i leihau anghydraddoldebau sy'n gysylltiedig ag anfantais economaidd-gymdeithasol.

Atal Digartrefedd Ieuenctid

Mae Llywodraeth Cymru, yn ei Rhaglen Lywodraethu, yn nodi ymrwymadau allweddol i ddeddfu yn unol â'r argymhellion allweddol yn y dogfennau isod mewn perthynas â digartrefedd a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae Strategaeth ein Rhaglen Cymorth Tai'n ystyried argymhellion allweddol sy'n cynnwys gwella cydweithio ar draws gwasanaethau tai a gwasanaethau cymdeithasol, a chryfhau cyfrifoldebau rianta corfforaethol.



Mae'r strategaeth hon hefyd yn gyson â'n gwaith cynllunio corfforaethol ehangach i sicrhau bod y Rhaglen Cymorth Tai'n ein cynorthwyo i wireddu ein huchelgeisiau ar y cyfan ar gyfer ein Sir, yn arbennig trwy ein Cynllun Corfforaethol. Mae hybu annibyniaeth trwy wasanaethau gwybodaeth a chynngor a chymorth ac estyn y dewis o dai sydd ar gael i'r rhai mwyaf agored i niwed yn themâu cyffredin ar draws portffolio polisiâu'r Cyngor sy'n berthnasol i ddigartrefedd a chymorth tai.

Mae achosion digartrefedd a'i ddatrysiadau'n gymhleth, a cheir nifer o'n meysydd polisi corfforaethol a fydd, trwy gydweithio, yn ein helpu i gyflawni'r strategaeth hon.

YN YSTOD Y CYFNOD RHWNG 2017 A 2020
AMLYGWYD CYFANSWM O

279

O UNIGOLION A THEULUEDD
YN DDIGARTREF YN SIR
BENFRO YN UNIG.



O'R 279 A AMLYGWYD,
CYFLAWNWYD CANLYNIAD
CADARNHAOL I

183

OHONYNT.



Y Cyd-destun Lleol

Y Cynllun Corfforaethol

Mae'r Cynllun Corfforaethol diweddaraf yn nodi sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn cynllunio ac yn rheoli gwasanaethau mewn ffordd fwy cynaliadwy ac mae'n ffactor galluogi allweddol i wireddu gweledigaeth y Cyngor y cytunwyd arni ym mis Gorffennaf 2016. Bydd y Cynllun hwn yn cael ei adolygu yn 2022, pan ddisgwylir y bydd anghenion tai'n cael eu nodi fel blaenoriaeth allweddol yn gorfforaethol. Mae'r Cynllun fel y saif ar hyn o bryd yn rhoi cymorth i gyflawni Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Lleol Sir Benfro hefyd.

Mae'r themâu eang yn cynnwys:

- **Gofal Cymdeithasol:** Byddwn yn gwneud beth bynnag y gallwn i gynorthwyo pobl i fyw'r bywyd gorau y gallant gan ganolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl agored i niwed yn ddiogel.
- **Economaidd:** Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo Sir Benfro fel lle gwyh i ymweld ag ef, byw a gweithio ynddo.
- **Tai:** Galluogi cartrefi fforddiadwy, gweddus ac addasadwy i bawb mewn lleoliadau cynaliadwy.

Strategaeth Adfer ac Adnewyddu Sir Benfro 2020-2030

Mae'r strategaeth hon yn cyfuno cynlluniau ailgychwyn ac adfer yr economi mewn ymateb i bandemig Covid-19 â dull tymor hwy o fynd ar drywydd adnewyddu ac adfywio. Mae'n nodi cynlluniau dros y pum mlynedd nesaf i gyrraedd y sefyllfa cyn y pandemig a symud y tu hwnt i hynny. Aethpwyd ar drywydd rhai o'r rhaglenni cyn COVID-19; mae'r angen am y rhain wedi cael ei gyflymu gan y pandemig.

Mae blaenoriaethau'n cynnwys y canlynol:

- Targedau ar gyfer twf tai yn y Cynllun Cyflawni Lleol sy'n disgwyl mwy o weithio gartref a dad-drefoli.
- Ail-lunio'r amgylchedd adeiledig – trwy fuddsoddiadau sylweddol i roi hwb cychwynol i drawsnewid ac adfywio yn ein Sir a'n trefi allweddol.
- Gweithio gyda phartneriaid i gyflawni'r genhedlaeth nesaf o swyddi peirianeg gwyrdd, glân sy'n canolbwyntio ar Ddyfrffordd Aberdaugleddau.

Cynllun Gweithredu Strategaeth Digartrefedd Sir Benfro 2019-2023

Mae gan Gynllun Gweithredu diweddaraf ein Strategaeth Digartrefedd chwe amcan allweddol fel a ganlyn:

Amcan 1: Cynnwys cwsmeriaid yn y gwaith o ddatblygu gwasanaethau - Rydym yn cydnabod bod cwsmeriaid wrth wraidd ein gwasanaeth, fel defnyddwyr ein gwasanaethau byddwn yn sicrhau eu bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau.

Amcan 2: Mae unrhyw un sy'n wynebu risg o fod yn ddigartref yn ymwybodol sut i gael gafael ar wasanaethau - Yn dilyn yr adroddiadau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac o adborth gan gwsmeriaid a rhanddeiliaid byddwn yn ceisio gwella gwelededd ein gwasanaeth.

Amcan 3: Cryfhau dulliau o ymyrryd yn gynnar ac atal - Mae ymchwil ac ystadegau yn dangos mai ymyrryd yn gynnar ac atal sydd â'r gyfradd lwyddo uchaf o ran datrys ac atal digartrefedd. Byddwn yn parhau i gryfhau gwasanaethau sydd wedi'u datblygu i gyflawni'r agenda hon.

Amcan 4: Adolygu modelau llety dros dro - Gweithio gyda chwsmeriaid sydd wedi defnyddio llety dros dro i ddylunio, comisiynu a darparu modelau hygyrch.

Amcan 5: Cryfhau gwasanaethau ar gyfer anghenion cymhleth - Mae cydnabyddiaeth eang bod cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau yn dod i sylw ag anghenion mwyfwy cymhleth. O'r herwydd, byddwn yn ceisio adolygu a datblygu gwasanaethau i gefnogi anghenion cwsmeriaid.

Amcan 6: Gwneud y defnydd gorau o adnoddau a ffrydiau ariannu - Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol wneud arbedion effeithlonrwydd blynyddol i'w cyllidebau wrth i gynni cyllidol barhau. O'r herwydd, byddwn yn gwneud cydweithredu a defnyddio adnoddau yn allweddol i gefnogi'r agenda digartrefedd.

Mae Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26 yn ceisio adeiladu ar y Strategaeth Ddigartrefedd uchod a'i hategu ac mae'n cwmpasu'r chwe amcan allweddol uchod.

Trefniadau Rhanbarthol

Buom yn gweithio'n flaenorol gyda'r tri awdurdod lleol arall yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru i lunio Strategaeth a Chynllun Gweithredu Rhanbarthol Dyfed Powys a ddiwygiwyd yn eu tro yng ngoleuni pandemig Covid-19. Mae'r strategaeth ranbarthol a'i blaenoriaethau wedi'u teilwra i adlewyrchu ein hanghenion a'n dyheadau lleol ac maent wedi goleuo ein blaenoriaethau.

Y blaenoriaethau rhanbarthol yw:

- Parhau i esblygu gwasanaethau yn y gymuned i helpu i atal digartrefedd.
- Canolbwyntio cymorth mewn cymunedau lle mae digartrefedd ar ei uchaf/yn fwy mynych.
- Datblygu systemau sy'n tynnu sylw at sbardunau rhybudd cynnar ynghylch digartrefedd fel bod cymorth a chynghor yn cael eu darparu cyn gynted â phosibl.
- Defnyddio dull amlasiantaeth o reoli achosion i ddiwallu anghenion aelwydydd sy'n defnyddio gwasanaethau lluosog yn aml.
- Archwilio'r dull 'Tai yn Gyntaf' ar gyfer y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth.

- Archwilio sut i ddatblygu opsiynau tai fforddiadwy a chynaliadwy ar gyfer pobl sengl.
- Datblygu trefniadau i weithio mewn partneriaeth glòs gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau/Canolfan Byd Gwaith i liniaru unrhyw effaith y gallai cyflwyno Credyd Cynhwysol ei chael ar allu aelwydydd i gadw eu tenantiaethau.

Mae gweithio rhanbarthol yn rhan bwysig o wella'r modd y darperir gwasanaethau. Rydym yn gweithio gydag awdurdodau lleol Sir Gâr, Ceredigion a Phowys i ffurfio'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol sy'n cyffinio â Byrddau Iechyd Prifysgol Powys a Hywel Dda i ddarparu fforwm ar gyfer cydweithio.

Rydym yn aelod allweddol o'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol sy'n darparu'r mecanwaith ar gyfer datblygu cydweithio, rhwng Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Thai a dyma'r mecanwaith y mae'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol yn ei ddefnyddio i feithrin perthynas weithio agos fel y gellir dylunio, comisiynu neu ffocysu gwasanaethau ar y cyd i wneud y gorau o ddibenion ategol Tai â chymorth, Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

YN ÔL AMCANGYFRIFON CANOL BLWYDDYN
2020, MAE GAN SIR BENFRO BOBLOGAETH O

126,751



SWM SY’N CYNRYDDU DROS FISOEDD
YR HAF O GANLYNIAD I DWRISTIAETH.



MAE ODDEUTU **57%**
O’R BOBLOGAETH MEWN
OEDRAN GWEITHIO.



AC MAE **26%**
O’R BOBLOGAETH
DROS 65 OED.

DISGWYLIR I HYN **GYNYDDU 19%** YN Y DENG
MLYNEDD NESAF, Y GYFRADD GYFLYMAF YN
Y RHANBARTH.

Gweledigaeth ac Egwyddorion

Mae darparu'r llety cywir a chymorth o ansawdd da i bobl sy'n ddigartref neu a allai ddod yn ddigartref yn egwyddorion sy'n rhedeg drwy ein dull gweithredu. Byddwn yn parhau i ddatblygu ein harlwy, gan adeiladu ar yr hyn yr ydym eisoes wedi'i sefydlu a'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu trwy bandemig Covid-19. Byddwn yn ymateb i anghenion defnyddwyr ac yn defnyddio technolegau newydd i ddatgloi'r gallu i gefnogi pobl mewn ffyrdd newydd ac ymatebol i'w galluogi i gyflawni eu potensial a ffynnu.






Ein gweledigaeth ar gyfer atal digartrefedd, lleddfu digartrefedd a gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai yw:

BOD PARTNERIAID YN Y SECTOR STATUDOL, Y TRYDYDD SECTOR A'R SECTOR PREIFAT YN CYDWEITHIO'N EFFEITHIOL I SICRHAU BOD POBL SY'N BYW YN SIR BENFRO YN GALLU CAEL GAFAEL AR DAI ADDAS A LLE BO'N BOSIBL YN GALLU AROS YN EU CYMUNEDAU LLEOL; A BOD Y CYMORTH CYWIR AR GAEL MEWN CYMUNEDAU LLEOL, I ATAL Y RHAI SY'N WYNEBU RISG O DDOD YN DDIGARTREF RHAG COLLI EU CARTREFI.

BYDDWN HEFYD **YN YMDRECHU I SICRHAU LLETY** A CHYMORTH PRIODOL CYN GYNTED Â PHOSIBL I'R RHAI SYDD WEDI DOD YN DDIGARTREF NEU SY'N WYNEBU RISG O DDOD YN DDIGARTREF GAN WNEUD SIR BENFRO YN LLE Y MAE DIGARTREFEDD YN CAEL EI ATAL NEU'N BRIN, YN FYR AC YN PEIDIO Â CHAEL EI AILADRODD.



Iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yn cyd-ddigwydd





MAE'R RISGIAU A'R NIWEIDIAU YN RHY GYMHLETH I UNRHYW SECTOR PENODOL YMATEB IDDYNT. BYDD ANGEN DULL AMLASiantaeth SY'N CANOLBwyntio AR YR UNIGOLYN.

Datganiad o Angen

Mae'r **Datganiad o Angen**, sydd ar gael fel dogfen ar wahân, yn crynhoi canfyddiadau **Asesiad o Anghenion** cynhwysfawr, sydd hefyd ar gael ar wahân. Mae'n nodi'r materion allweddol y mae angen mynd i'r afael â hwy drwy Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai a'r gofynion penodol i Gyngor Sir Penfro wrth gyflawni ein dyletswyddau statudol i atal a lleddfu digartrefedd.

Cynhaliwyd yr Asesiad o Anghenion yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac mae'n cyfuno ystod eang o ddata meintiol â chudd-wybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu'n helaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid. Ceir crynodeb o ganfyddiadau allweddol yr Asesiad o Anghenion yn yr adran hon.



Trosolwg

Mae gan y Sir forlin helaeth ac mae'r economi leol yn ddibynnol iawn ar dwristiaeth. Mae harddwch naturiol Sir Benfro yn un o'r prif resymau dros y mewnlif o bobl o'r tu allan i'r sir sydd naill ai am ymddeol neu am brynu tai haf. Mae effaith pandemig COVID-19 hefyd wedi cyfrannu at fwy o ddiddordeb mewn symud allan o ddinasoedd i fannau prydferth a bydd hyn yn parhau i effeithio ar y Sir a'r pwysau ar dai.

Un o'r heriau sylweddol o ran cael mynediad at y farchnad dai yn Sir Benfro yw nifer y bobl sydd ag ail gartrefi yn ogystal â llety gwyliau. Er bod cynnydd o 9% wedi bod mewn ail gartrefi yng Nghymru ers 2018, mae Sir Benfro wedi gweld cynnydd o 45% mewn ail gartrefi yn yr un cyfnod.

Mae llai o ardaloedd difreintiedig yn Sir Benfro o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn debyg i'r rhanbarth ehangach. Mae'r ardaloedd hyn wedi'u crynhoi mewn canolfannau trefol yn bennaf yn ne'r Sir, yn enwedig o amgylch Doc Penfro. Mae'r mathau o amddifadedd y mae pobl yn eu hwynebu yn Sir Benfro yn tueddu i amrywio gan ddibynnu pa un a ydynt yn byw mewn ardaloedd trefol ynteu mewn ardaloedd gwledig, ac mae hyn yn effeithio ar y pwysau sy'n achosi i bobl fod dan fygythiad o ddigartrefedd.

Mae'r heriau a wynebir weithiau gan y rhai sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn cynnwys mynediad gwael at wasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau eraill yn ogystal ag amwynderau ehangach, a all gael eu gwaethygu ymhellach gan gysylltiadau neu argaeledd trafndiaeth gyhoeddus gwael. Mae hyn yn cyflwyno heriau o ran darparu gwasanaethau cymorth tai a gwasanaethau cymdeithasol eraill.

Mae'r prif fathau o amddifadedd sy'n gysylltiedig â risg uwch o ddigartrefedd yn ein hardaloedd trefol yn cynnwys amddifadedd o ran cyflogaeth, incwm ac iechyd.

Dyma'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'r dadansoddiad o anghenion:

Deall Angen

Mae gwasanaethau Cymorth Tai yn bodoli i helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, arwahanrwydd a sefydliadu. Fel a amlinellwyd yn gynharach yn y strategaeth, mae fframwaith cyfreithiol a pholisi Cymru yn ei gwneud yn glir bod ymyrryd yn gynnar yn lleihau dwysâd gormodol ac yn osgoi argyfwng, gydag effeithiau dilynol ar iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth.

Mae'r Asesiad o Anghenion yn dangos bod y galw am dai sydd mewn lleoliadau addas, sy'n addas ar gyfer y diben yn fwy na'r cyflenwad, yn enwedig mewn perthynas â llety ag un ystafell wely, er gwaethaf ymdrechion gorau'r Cyngor i greu opsiynau newydd ar gyfer llety dros dro, llety â chymorth a thai parhaol. Mae hyn yn gwneud rôl atal yn fwy taer byth ac felly hefyd yr angen i roi cymorth i bobl allu cynnal eu llety presennol.

Mae deall gweithgarwch partneriaid system megis Iechyd, y Gwasanaeth Prawf ac Addysg a chael mynediad at yr wybodaeth sydd ganddynt am anghenion unigolion/teuluoedd yn hanfodol er mwyn cynllunio gwasanaethau'n effeithiol a darparu cymorth yn gynnar, cyn i argyfyngau ddatblygu.

Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau

Mae gan bobl ag anghenion iechyd meddwl un o'r cyfraddau atgyfeirio uchaf ar gyfer ein gwasanaethau a ariennir â'r Grant Cymorth Tai. Nid oedd un ymhob pump o bobl yng Nghymru yn gallu cael gafael ar gymorth iechyd meddwl ar ddechrau pandemig Covid-19, gan arwain at gynnydd posibl mewn angen a'r angen am ofal brys. Dyblodd symptomau iselder yn ystod y pandemig gydag 1 ymhob 5 oedolyn yn profi rhyw fath o iselder.

Mae heriau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl yn aml yn cydfodoli ac mae cysylltiad cryf rhyngddynt ill dau a digartrefedd hefyd. Mae nifer cymharol uchel o bobl yn cael eu hatgyfeirio at wasanaethau'r Grant Cymorth Tai gyda phroblemau camddefnyddio alcohol neu sylweddau fel y prif angen. Fodd bynnag, mae rhanddeiliaid yn nodi bod cyfran uwch o lawer yn bobl y mae hwn yn angen eilaidd iddynt ynghyd ag iechyd meddwl lle mae'r ddau yn cyd-ddigwydd.

Mae nifer uchel a chynyddol o bobl y mae arnynt angen gwasanaethau'r Grant Cymorth Tai sydd â phroblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd. Mae gwasanaethau cymorth tai yn dweud y gall fod yn anodd cael gafael ar wasanaethau cymorth iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau'r GIG ar gyfer y bobl hyn. Mae gwasanaethau cymorth tai a digartrefedd yn delio ag anghenion mwy cymhleth ers pandemig COVID-19 ac mae mwy o bobl ag anghenion cymhleth yn cael eu lleoli mewn llety dros dro.

Mae gwasanaethau Cymorth Arnofiol, sy'n cefnogi pobl mewn llety dros dro, hefyd yn nodi bod gan bobl a atgyfeiriwyd anghenion mwy cymhleth.

Dywed partneriaid iechyd eu bod ar hyn o bryd yn ymgynghori ar lwybrau ar gyfer camddefnyddio sylweddau ac mae hyfforddiant yn cael ei gynnig i asiantaethau ar broblemau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd.

Teimlai rhanddeiliaid ehangach fod angen i'r rhyngweithio â'r Bwrdd Cynllunio Ardal fod yn ffocws ar gyfer datblygu a gwella cysylltiadau â Grwpiau Tai Rhanbarthol.

Mae'r Asesiad o Anghenion yn nodi mai diwallu anghenion pobl â chyflyrau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys lle mae'r ddau yn cyd-ddigwydd, yw'r mater pwysicaf i'r Cyngor a'n partneriaid.

Pobl Ifanc

Mae cyfanswm y bobl sy'n cael eu lletya dros dro gan y Cyngor wedi cynyddu trwy gydol y pandemig ac mae wedi cynyddu'n sydyn o'i gymharu â lefelau cyn y pandemig. Fodd bynnag, mae nifer y bobl ifanc (16-25 oed) sy'n cael eu lletya wedi cynyddu'n gyflymach na chategoriâu eraill rhwng 2019 a 2021, gan gynyddu o 12 ym mis Mawrth 2019 i 48 ym mis Awst 2021, bron i 25% o'r holl gategoriâu o bobl a letyir dros dro.

Bydd llawer o'r bobl ifanc hyn yn rhai 'â phrofiad o fod mewn gofal'. Mae methiant perthnasoedd â theuluoedd yn dal i fod yn un o'r rhesymau amlwg y mae pobl ifanc yn dod i sylw fel pobl ddigartref yn Sir Benfro. Byddwn yn sicrhau bod ein dull corfforaethol o gefnogi pobl ifanc yn cael ei gryfhau – gan sicrhau dull strategol 'un Sir Benfro' o gyflawni gweithgareddau atal a gweithgareddau ymyrryd yn gynnar wedi'u targedu.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi gorchwyl i bob Cyngor yng Nghymru, gan gynnwys Sir Benfro, archwilio eu hymateb rhianta corfforaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a'u hanghenion llety yn y dyfodol.

Yn benodol, mae'n gofyn i gynghorau ymateb i'r angen am y canlynol:

- Proses adnabod weithredol i sicrhau bod pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n dod i sylw fel pobl ddigartref yn gallu cael yr holl gymorth y mae ganddynt hawl iddo mewn cydweithrediad â gwasanaethau plant.
- Cynnal adolygiadau amlasiantaeth i ganfod unrhyw fylchau yn y system neu ymyriadau a allai fod wedi digwydd i sicrhau bod achosion tebyg yn y dyfodol yn cael eu hatal ar gyfer pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n dod yn ddigartref;
- Rhoi statws 'cysylltiad lleol' i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r sir, wrth symud ymlaen;
- Estyn cymorth Cynghorwyr Personol hyd at 25 oed.

Bydd angen i gydweithio a chydgomisiynu corfforaethol yn y dyfodol adlewyrchu dull rhianta corfforaethol mwy cydgysylltiedig o atal digartrefedd yn y dyfodol gan hefyd sicrhau bod nodweddion/anghenion eraill yn cael eu hystyried e.e. materion rhyw-benodol neu LHDTC+.

Cododd rhanddeiliaid bryderon am y diffyg opsiynau llety dros dro addas i ymateb i argyfwng yn ogystal â diffyg opsiynau symud ymlaen addas. Mynegodd rhanddeiliaid yr angen i adeiladu ar

wasanaethau sy'n bodoli eisoes megis cymorth arnofiol a gwasanaethau cyfryngu ac y gallai cynlluniau tenantiaeth a rennir fod o gymorth i rai pobl ifanc.

Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Ledled Canolbarth a Gorllewin Cymru, mae'r Grant Cymorth Tai'n buddsoddi tua £1.7 miliwn mewn gwasanaethau i fenywod a dynion sydd wedi profi cam-drin domestig. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys darparu lloches i ddynion a menywod, cymorth arnofiol, gwasanaethau galw heibio, cymorth i deuluoedd a gwella diogelwch. Hefyd, mae cyllid y rhaglen ledled y rhanbarth yn galluogi pobl i gael cymorth arall sy'n lleihau eu risg o ddod yn ddigartref gan gynnwys cymorth ariannol uniongyrchol a chymorth i bobl ag anghenion sy'n aml yn cyd-ddigwydd â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol e.e. iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau, dyled ac ati.

Nid yw darparwyr gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi nodi cynnydd sylweddol yn y galw ers dechrau'r pandemig gyda'r niferoedd bellach yn dechrau dychwelyd i lefelau cyn Covid. O safbwynt cenedlaethol, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi nodi amgylchiadau tebyg ledled Cymru. Fodd bynnag, rydym yn ofalus i beidio â dehongli hyn fel arwydd bod llai o angen – rydym wedi rhagweld bod y cyfyngiadau symud yn ystod y pandemig wedi arwain at gynnydd mewn achosion o gam-drin domestig na roddwyd gwybod amdanynt. Mae effaith



cyfyngiadau Covid-19 yn debygol o fod wedi cynyddu'r risg a'r tebygolrwydd o ddigwyddiadau cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn cartrefi. Fodd bynnag, mae'r un cyfyngiadau hyn hefyd wedi lleihau neu ddileu'r cyfleoedd i'r dioddefwyr a'r goroeswyr hyn roi gwybod am achosion o gam-drin a/neu gael cymorth.

Felly, fe wnaethom gynyddu capasiti fel ymateb i'r cynnydd disgwylidig yn y galw ar ôl y cyfyngiadau symud ac rydym yn bwriadu monitro'r sefyllfa'n barhaus ac ystyried y ffordd orau o lunio ein gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn y dyfodol.

Er nad yw ceisiadau digartrefedd i'r rhai sy'n ffoi rhag cam-drin domestig yn uchel, maent yn tueddu i fod yn fwy cymhleth ac mae angen datblygu gwasanaethau, yn enwedig o ran gwella rhaglenni cam-drin domestig sy'n gweithio gydag anghenion cymhleth a chyflawnwyr cam-drin domestig.

Pobl Sengl

Mae'r asesiad o anghenion yn dangos bod aelwydydd un person wedi rhoi cyfrif yn gyson am y mwyafrif o achosion lle mae'r Cyngor wedi rhoi cymorth i'r rhai sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref. Ymgeiswyr gwrywaidd sengl yw'r gyfran fwyaf o geisiadau a wnaed gan y rhai sydd wedi bod yn ddigartref o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd rhai pobl a leolwyd mewn llety dros dro wedi'u lleoli fwy nag unwaith, gan adlewyrchu cymhlethdod cynyddol yr anghenion a oedd yn dod i sylw ac mae nifer y bobl y mae angen llety dros dro arnynt wedi cynyddu.

Bu cynnydd sydyn yn y defnydd o lety brys, stoc dai Sir Benfro ac, yn benodol, gwely a brecwast, sy'n adlewyrchu'r lefel uwch o bwysau a roddir ar yr awdurdod lleol i sicrhau Llety Dros Dro. Mae'r defnydd cynyddol o lety gwely a brecwast yn peri pryder sylweddol i'r Gwasanaeth Tai o ran addasrwydd y math hwn o lety fel Llety Dros Dro, goblygiadau defnyddio gwely a brecwast fel ateb o ran Llety Dros Dro gyda chyflwyno'r Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru); yn ogystal â'r pwysau ariannol y mae dibynnu ar lety o'r fath yn ei olygu i'r cyllidebau digartrefedd.

Atal

Mae gwasanaethau Cymorth Tai yn bodoli i helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, arwahanrwydd a sefydliadu. Mae fframwaith cyfreithiol a pholisi Cymru yn ei gwneud yn glir bod ymyrryd yn gynnar yn lleihau dwysâd gormodol ac yn osgoi argyfwng, gydag effeithiau dilynol ar iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth.

Mae'r Asesiad o Anghenion yn dangos bod y galw am dai yn fwy na'r cyflenwad; mae hyn yn gwneud rôl atal yn fwy taer byth ac felly hefyd yr angen i roi cymorth i bobl allu cynnal eu llety presennol.

Ar hyn o bryd rydym yn darparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth arnofiol a ariennir gan y Grant Cymorth Tai i helpu pobl i gynnal eu llety ac atal digartrefedd. Fodd bynnag, mae angen i ni (gyda'n partneriaid ar draws iechyd, gofal cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf) ailffocysu ein sylw ar gynaliadwyedd tenantiaethau. Mae hyn yn gofyn am ddull mwy cyfannol na chymorth arnofiol yn unig gan bod anghenion pobl yn mynd yn fwyfwy cymhleth.

Mae angen inni ddatblygu ein harlwy mewn perthynas â gwasanaethau datrys gwrthdaro a chyfyngu i deuluoedd, cymdogion a landlordiaid, gan dargedu cymunedau penodol lle mae lefelau uchel o ddigartrefedd yn digwydd.

Lleddfu Digartrefedd a Darparu Llety Addas

Mae gennym ddyletswydd statudol i leddfu digartrefedd yn ogystal â'i atal. Mae ein gallu i gyflawni ein ddyletswyddau yn cael ei herio ar hyn o bryd gan y cynnydd yn nifer y bobl sy'n dod i sylw ag anghenion cymhleth, sy'n cyd-ddigwydd o ran camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl. Nid yw'r opsiynau llety a chymorth sydd ar gael ar hyn o bryd wedi'u bwriadu i ddiwallu anghenion y grŵp hwn. Mae hyn yn arwain at letya pobl mewn llety anaddas a gall arwain at fwy o achosion o allgáu.

Yn benodol, amlygodd yr asesiad o anghenion yr angen am:

- Ymchwilio i ddatblygu mwy o opsiynau ar gyfer pobl fwy cymhleth sydd wedi'u hallgáu'n fynych sydd â heriau cronig o ran camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl.
- Mwy o opsiynau sy'n sicrhau bod pobl ifanc 16–25 oed ac yn arbennig pobl ifanc 'â phrofiad o fod mewn gofal' yn cael eu rhoi mewn llety sy'n briodol i'w hoedran.
- Sicrhau bod digon o opsiynau addas ar gyfer symud ymlaen a llety parhaol – yn enwedig i bobl sengl

Mae helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned yn hanfodol i'r Rhaglen Cymorth Tai. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond mynediad ond asesu a dylanwadu ar gyflenwad a llety addas ym mhob cymuned ledled Sir Benfro.

Mae'r dull Tai yn Gyntaf yn Sir Benfro yn dal i fod yn ei ddyddiau cynnar. Mae cyfle i ymchwilio ymhellach i'r defnydd o'r model hwn ar gyfer pobl ag anghenion mwy cymhleth (heriau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-fodoli), yn enwedig cyn-droseddwr a phobl ifanc. Mae angen mwy o opsiynau tai â chymorth sy'n mabwysiadu dull 'lleihau niwed' mewn perthynas â defnydd tenantiaid o gyffuriau/alcohol yn hytrach na dull 'dim goddefgarwch' gyda'r cyllid cyfalaf a refeniw y mae ei angen ar gyfer llety o'r fath yn cael ei adnabod a'i ddyrannu.

Bydd angen archwilio rhai modelau tai a rennir hefyd er mwyn mynd i'r afael â'r galw cynyddol yn y tymor byr a chanolig – dim ond pan fo hyn yn briodol a phan nad yw'n wrthgynhyrchiol i gefnogi unigolion.

Y Sector Rhentu Preifat

Mae'r Asesiad o Anghenion yn tynnu sylw at ddiffyg llety i bobl symud i mewn iddo neu symud ymlaen o lety â chymorth neu lety dros dro. Rhan allweddol o'r farchnad llety symud ymlaen yw'r Sector Rhentu Preifat. Ers y pandemig, a chyda'r cynnydd mewn gwerthoedd tai a rhentu yn Sir Benfro, nid yw llawer o landlordiaid preifat am weithio gyda chleientiaid a atgyfeiriwyd gan y Cyngor mwyach, gan ffafrio dod o hyd i denantiaid preifat sy'n gallu fforddio rhent yn ôl gwerth y farchnad

ar gyfer eu heiddo. Mae angen i waith barhau i ymgysylltu â landlordiaid preifat a datblygu'r farchnad hon ymhellach fel opsiwn ymarferol ar gyfer llety symud ymlaen – yn enwedig i bobl sengl. Ar ddiwedd 2021/dechrau 2022 rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y teuluoedd o'r sector rhentu preifat sy'n dod i sylw fel pobl ddigartref, lle mae'r landlord naill ai'n dymuno gwerthu neu'n dymuno newid y tŷ ar rent i'r farchnad llety gwyliau fwy proffidiol. Mae hyn yn ei dro'n cynyddu cost rhentu preifat, yn ogystal â'i argaeledd.

Cynllunio ac adeiladu

Mae gennym heriau sylweddol o ran tai yn sir Benfro. Mae angen cynllunio ac adeiladu cartrefi newydd ar frys, yn enwedig llety ag un ystafell wely. Mae angen i'r datblygiadau hyn fynd i'r afael â natur frys y prinder tai gan hefyd barchu anghenion ac unigrywiaeth cymunedau lleol.

Mae aliniad strategol y strategaeth hon a'r Cynllun Datblygu Lleol yn allweddol i Sir Benfro. Mae sicrhau bod pob datblygiad yn y dyfodol yn cynnwys digon o eiddo ag un ystafell wely yn y sector rhentu cymdeithasol yn hanfodol er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau.

Llety â Chymorth a Chymorth Arnofiol

Mae'r Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol presennol a ddefnyddir i fesur canlyniadau'r cymorth a ddarperir yn rhoi gwybodaeth am sut y mae pobl yn dod yn eu blaenau ond nid yw'n rhoi digon o ddealltwriaeth am yr hyn sydd wedi bod yn effeithiol yn y cymorth a ddarperir i gyflawni'r canlyniadau hynny. Bydd gwaith sydd ar y gweill yn Llywodraeth Cymru i gyflwyno Fframwaith Canlyniadau Sengl, a ohiriwyd gan y pandemig, yn helpu pob gwasanaeth i fynd i'r afael â hyn wrth symud ymlaen.

Mae'r pandemig wedi arwain at leoli cryn dipyn o bobl mewn llety brys ers mis Mawrth 2020. Mae gan y rhan fwyaf o'r unigolion sy'n nodweddiadol yn diweddu mewn llety brys anghenion lluosog ac mae angen ystod eang o wasanaethau arnynt i'w cynorthwyo.

Rydym yn pryderu am y ffordd y mae'r pandemig wedi achosi i'r angen am gymorth gael ei 'gynilo' yn ystod y cyfyngiadau symud ac rydym yn disgwyl cynnydd sylweddol yn y galw ar gyfer 2022/23 a'r tu hwnt. Mae lefelau uwch o angen a risg hefyd y maent bellach yn eu cefnogi a bod angen opsiynau byw

parhaol ar rai pobl mewn amgylchedd tai â chymorth. Mae ein partneriaid yn dweud wrthym bod angen i gymorth sy'n gysylltiedig â thai gyda mewnbwn amlasiantaeth, ar gyfer y rhai mwyaf cymhleth ac anodd ymgysylltu â hwy, gael ei dargedu a bod yn fwy amserol.

Rydym yn profi heriau sylweddol o ran dod o hyd i lety i bobl ag anghenion cymhleth iawn. Nid yw rhai pobl yn barod i dderbyn nac ymdopi â chymorth a dywedwyd fod rhai pobl yn 'ymddolennu' rhwng digartrefedd, llety dros dro, llety â chymorth a'r carchar. Mae grŵp craidd o bobl sy'n cael eu gweld sawl gwaith gan nifer o asiantaethau. Mae rhai o'r gwasanaethau a ariennir â Grant Cymorth Tai yr ydym wedi'u datblygu dros y ddwy flynedd ddiwethaf wedi dod i fodolaeth o ganlyniad i'r sefyllfa 'drws tro' hon, ac mae manteision y gwasanaethau hyn yn cael eu dangos, er bod mynediad at wasanaethau statudol ehangach yn parhau i fod yn her.

Felly, byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn y GIG i wella mynediad at gymorth timau iechyd meddwl y GIG a chael eglurder ynghylch cymhwystra a llwybrau, gan bod angen cydweithio mwy effeithiol yn y maes hwn. Deallwn fod heriau gwirioneddol yn Sir Benfro a ledled Cymru o ran recriwtio a chadw staff. Mae gwasanaethau dan bwysau ac yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i staff, ac mae pobl yn chwilio am rolau mewn sectorau eraill. Mae angen inni wella delwedd y sector i ddenu a chadw staff ychwanegol sy'n teimlo eu bod yn cael cydnabyddiaeth ariannol deg ac yn cael eu cefnogi'n briodol.


Rhannu Data a Gweithio Amlasiantaeth

Mae'r cynnydd yn nifer y bobl y mae angen cymorth tai arnynt sydd â heriau sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl a/neu gamddefnyddio sylweddau yn amlygu'r angen am gydweithio ar draws y GIG, yr awdurdod lleol a sectorau eraill i ddarparu cymorth priodol, holistaidd.

Tynnodd rhanddeiliaid sylw at y brys sydd i gael gwell ymateb gweithredol amlasiantaeth i gynhwysiant gyda'r nod penodol o gytuno ar gonsensws ar sut i gydweithio â phobl ddigartref ag anghenion cymhleth neu unigolion sydd mewn perygl o golli eu llety. Roedd yn amlwg o'r broses Asesu Anghenion bod gweithio amlasiantaeth effeithiol ar lefelau rhanbarthol, lleol, strategol a gweithredol yn hanfodol er mwyn darparu'r cymorth integredig cywir. Mae angen gwaith sylweddol i ddatblygu arferion gweithio ar y cyd ar bob lefel a chyda phob partner system yn Sir Benfro.

Mae'r Asesiad o Anghenion yn dynodi bod rhannu data a chudd-wybodaeth yn digwydd mewn modd anghyson ar draws sectorau. Lle mae sawl asiantaeth yn ymwneud â pherson digartref, dylid gwella trefniadau rhannu gwybodaeth rhwng yr awdurdod lleol, y gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth prawf, gwasanaethau tai a phartneriaid yn y trydydd sector, a'u halinio â fframweithiau cenedlaethol y cytunwyd arnynt er mwyn goleuo'r gwaith o gynllunio gwasanaethau yn y dyfodol yn well.

Nododd rhanddeiliaid fod angen i fentrau atal ac ymyrryd yn gynnar ar draws Cyngor Sir Penfro, yn enwedig ym maes Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol, gael eu halinio'n strategol ac yn weithredol er mwyn cynyddu i'r eithaf ansawdd ac amseroldeb cymorth i ddinasyddion a allai fod yn ddigartref.



Casgliad

Mae'r ystod o ganfyddiadau yn yr Aseiad o Anghenion yn rhoi negeseuon clir ar gyfer cyfeiriad ein Strategaeth Tai a'n gwasanaethau a ariennir â'r Grant Cymorth Tai yn y dyfodol. Mae ein blaenoriaethau strategol yn adlewyrchu'r negeseuon hyn ac yn nodi sut y bydd Cyngor Sir Penfro a'n partneriaid yn gweithio gyda'n gilydd i gyflawni ein gweledigaeth gyfunol.

Blaenoriaethau Strategol

Yn sylfaenol i'r Rhaglen Cymorth Tai mae'r nod o helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned. Mae hyn yn cynnwys nid dim ond mynediad at dai priodol ond gweithredu strategol i sicrhau bod cyflenwad digonol o'r cartrefi y mae eu hangen ledled Sir Benfro.

Bydd darparu ystod o wasanaethau cymorth, a gomisiynir ar y cyd gan y Cyngor a'i bartneriaid, hefyd yn parhau'n allweddol i sicrhau, yn y dyfodol, bod digartrefedd yn cael ei atal, neu lle mae'n digwydd ei fod yn brin, yn fyr ac yn peidio â chael ei ailadrodd.

Mae'r blaenoriaethau ar gyfer darparu gwasanaethau'r Rhaglen Cymorth Tai a gwasanaethau Atal a Lleddfu Digartrefedd wedi'u goleuo gan yr asesiad o anghenion lleol a rhanbarthol a'r ymgysylltu a fu â rhanddeiliaid. Maent hefyd wedi cael

eu goleuo gan ofynion polisi ehangach cenedlaethol, rhanbarthol a lleol megis y newid i ailgartrefu'n gyflym a'n gwersi o bandemig Covid-19.

Mae'r gwaith i ddadansoddi data lleol ar ddigartrefedd, perfformiad gwasanaethau cyfredol a'r ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi ein galluogi i sefydlu ein blaenoriaethau strategol ar gyfer y Strategaeth hon yn ogystal â chyfres o feysydd lle'r ydym am weithredu dros y pedair blynedd nesaf i gryfhau ein dull o atal a lleddfu digartrefedd.

Mae dadansoddiad o ddata lleol ar ddigartrefedd, perfformiad gwasanaethau cyfredol a barn rhanddeiliaid wedi arwain at nodi pedair blaenoriaeth strategol ar gyfer strategaeth Rhaglen Cymorth Tai Sir Benfro, a ategir gan gyfres o gamau gweithredu sydd yn yr arfaeth dros y pedair blynedd nesaf a fydd yn cryfhau ein dull o ymdrin â digartrefedd ac yn lleihau nifer yr achosion o ddigartrefedd a hyd cyfnodau o ddigartrefedd ar draws pob cymuned.

Blaenoriaeth Strategol 1

Cryfhau gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal a chymorth arbenigol i atal digartrefedd

Mae gwasanaethau Cymorth Tai yn bodoli i helpu i atal digartrefedd, allgáu cymdeithasol, arwahanrwydd a sefydliadu. Mae atal yn fusnes craidd yng ngwasanaethau digartrefedd Sir Benfro a'r hyn sy'n hanfodol i'n dull gweithredu yw dychwelyd at fusnes fel arfer gan ganolbwyntio ar atal digartrefedd a dychwelyd at lefelau perfformiad cyn y pandemig a'u gwella.

Mae gennym hanes cryf o atal digartrefedd. Mae ein staff mewnol a'n darparwyr cymorth yn hanfodol i atal a lleddfu digartrefedd – trwy chwilio am opsiynau llety a chymorth sy'n diwallu anghenion unigol.

Y nod wrth ymyrryd yn gynnar yw lleihau'r dwysâd gormodol o fod yn rhywun a allai fod yn ddigartref i osgoi argyfwng tai, gydag effaith ddilynol ar iechyd, cynhwysiant ac annibyniaeth.

Byddwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol i gryfhau ein dull o atal:

Cam Gweithredu 1: Datblygu gwaith Ymyrryd yn Gynnar ac Atal Digartrefedd i'n helpu i ddychwelyd at y ffigurau perfformiad cyn y pandemig.

Cam Gweithredu 2: Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau – datblygu cydweithio ehangach ar faterion sy'n cyd-ddigwydd.

Cam Gweithredu 3: Cymorth i bobl ifanc gan gynnwys dull rhianta corfforaethol gwell mewn perthynas ag anghenion llety yn y dyfodol.

Cam Gweithredu 4: Monitro ac ymateb i effaith y galw ar ôl y cyfyngiadau symud mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

Blaenoriaeth Strategol 2

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref yn cael mynediad at y cartref cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir, fel rhan o'n dull Ailgartrefu'n Gyflym

Mae helpu pobl i fyw'n annibynnol yn y gymuned yn hanfodol i'r Rhaglen Cymorth Tai. Mae hyn yn cynnwys asesu a dylanwadu ar gyflenwad a llety addas. Mae angen cyflenwad tai, yn enwedig unedau ag un ystafell wely a llety â chymorth ychwanegol i ddiwallu'r angen yn Sir Benfro, yn enwedig yng ngoleuni'r farchnad rhentu preifat gystadleuol.



**SICRHAU BOD POBL SY'N
DDIGARTREF NEU SYDD
DAN FYGYTHIAD O FOD
YN DDIGARTREF YN CAEL
MYNEDIAD AT Y CARTREF
CYWIR AR YR ADEG GYWIR
AC YN Y LLE CYWIR**



Bydd y Cyngor yn anelu at adeiladu ar ei ddull Tai yn Gyntaf tuag at Ailgartrefu'n Gyflym a dull wedi'i ddiweddarau o gynorthwyo pobl i ddod o hyd i'r llety cywir gyda'r cymorth cywir o'r cychwyn cyntaf. Byddwn yn gwneud hyn trwy'r canlynol:

Cam Gweithredu 5: Darparu llety addas tuag at ailgartrefu'n gyflym ac ymateb i'r 'normal newydd'. Yn unol â chyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru, byddwn yn gweithredu ein cynllun pontio Ailgartrefu'n Gyflym.

Cam Gweithredu 6: Adolygu effaith Covid ar y defnydd o lety dros dro, yn enwedig gwely a brecwast.

Cam Gweithredu 7: Cynyddu mynediad at y Sector Rhentu Preifat.

Cam Gweithredu 8: Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i wella'r broses o symud ymlaen o lety dros dro.

Cam Gweithredu 9: Sicrhau bod yr ystod o lety yn cael ei ehangu i ddiwallu'r angen presennol ac yn y dyfodol (llety cyffredinol a llety â chymorth).

Blaenoriaeth Strategol 3

Cryfhau gwasanaethau Cymorth Tai ymhellach

Gwyddom fod amseroldeb ac addasrwydd cymorth yn bethau y mae ein defnyddwyr gwasanaethau'n dibynnu arnynt. Byddwn yn parhau i arloesi ein harlwy wrth i fwy ddod yn hysbys am anghenion defnyddwyr a sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n cael sicrwydd a chysondeb o ran y cymorth trwy ein trefniadau contractio gyda darparwyr.

Byddwn yn adeiladu ar lwyfan y model cymorth presennol sy'n rhoi cymorth i bobl ag anghenion cymorth uchel, canolig ac isel trwy weithio gyda'n partneriaid i wella'r system gymorth gyfan.

Cam Gweithredu 10: Byddwn yn adolygu ein trefniadau cytundebol gyda darparwyr cymorth gyda golwg ar leihau biwrocratiaeth a gwella sicrwydd ariannol – gan hybu hyblygrwydd ac arloesi, a chefnogi ein hamcanion strategol.

Cam Gweithredu 11: Byddwn yn adolygu ein holl wasanaethau presennol i sicrhau ein bod ni, ynghyd â'n sefydliadau partner, yn comisiynu gwasanaethau yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth hon.

Blaenoriaeth Strategol 4

Cydweithio i ddarparu cymorth holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag ymyriadau arbenigol effeithiol lle bo angen

Mae amseroldeb ac addasrwydd cymorth yn bethau y mae defnyddwyr gwasanaethau'n dibynnu arnynt. Bydd partneriaid yn parhau i ddatblygu gwasanaethau i adlewyrchu anghenion defnyddwyr, ac wrth i dechnolegau newydd ddatgloi'r gallu i gefnogi pobl mewn ffyrdd newydd ac ymatebol. Mae angen canolbwyntio'n barhaus ar gymorth i bobl ag anghenion cymhleth, gan gynnwys pobl sy'n gadael y carchar a phobl â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau.

Mae rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau a chyfuno adnoddau yn allweddol i hyn. Bydd gwelliannau i gymorth yn canolbwyntio ar:

- Anghenion cymhleth ac atebion sefydlog.
- Gwella ymatebion amlasiantaeth a gweithio o fewn y system.
- Defnyddio data, casglu a rhannu.
- Cadw staff a'u datblygiad proffesiynol.

Cam Gweithredu 12: Gwella ymatebion amlasiantaeth a gweithio o fewn y system.

Mae Atodiad A yn darparu ymrwymadau manylach o dan bob un o'r camau gweithredu a nodwyd.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Bu rhanddeiliaid yn rhan o'r gwaith o ddatblygu blaenoriaethau'r strategaeth hon trwy gyfres o weithdai ar-lein, cyfweiliadau un-i-un a thrwy holiaduron gan gynnwys holiadur i ddefnyddwyr gwasanaethau. Roedd hyn yn elfen allweddol o'r Asesiad o Anghenion.



Roedd y grwpiau yr ymgysylltwyd â hwy yn cynnwys:

- Defnyddwyr gwasanaethau
- Tîm y Grant Cymorth Tai
- Timau Tai a Digartrefedd
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- BIP Hywel Dda
- Gwasanaethau Ieuenctid
- Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
- Darparwyr y Grant Cymorth Tai
- Y GIG
- Y Gwasanaeth Prawf
- Y Bwrdd Anghenion Camddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl sy'n Cyd-ddigwydd

Mae'r prif themâu a godwyd gan randdeiliaid wedi'u cynnwys isod ac maent wedi dylanwadu ar y blaenoriaethau strategol ac fe'u hymgorfforir yn y Cynllun Gweithredu yn Atodiad A.

- Gwella hygyrchedd i bawb gydag athroniaeth 'dim drws anghywir'.
- Gwella gwaith amlasiantaeth, yn enwedig ar gyfer iechyd meddwl, camddefnyddio sylweddau a lle mae'r rhain yn cyd-ddigwydd.
- Sicrhau bod gwell ymateb gweithredol amlasiantaeth i gynhwysiant gyda'r nod o gytuno ar gonsensws ar sut i gydweithio gydag unigolion cymhleth digartref neu unigolion sy'n ddigartref ac sydd mewn perygl o golli eu llety.
- Datblygu Model Tai yn Gyntaf ar gyfer mwy o bobl ag anghenion cymhleth
- Mae angen opsiynau byw parhaol ar bobl mewn amgylchedd tai â chymorth.
- Mae angen i ymatebion Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai ar gyfer y rhai mwyaf cymhleth ac anodd ymgysylltu â hwy fod yn gyflym: mae angen cymorth ar bobl pan fo'i angen arnynt.

- Adolygu'r defnydd o wely a brecwast a datblygu opsiynau Llety Dros Dro eraill.
- Sicrhau bod mentrau atal ac ymyrryd yn gynnar yn cael eu blaenoriaethu.
- Dylai ymyriadau'r Grant Cymorth Tai ddechrau cyn gynted â phosibl, bod yn seiliedig ar le, a thargedu ardaloedd risg uchel.
- Darparu mwy o opsiynau i bobl ifanc – yn enwedig y rhai sydd 'â phrofiad o fod mewn gofal'.
- Sicrhau gwell mynediad at opsiynau llety â chymorth/dros dro a parhaol – yn enwedig i bobl sengl.
- Sicrhau bod y gweithlu'n cael ei gefnogi'n dda a'i fod yn cael cydnabyddiaeth ariannol deg.

Aseidiadau Effaith

Rydym wedi cynnal asesiad effaith ar y blaenoriaethau a'r camau gweithredu a amlinellwyd gennym yn y Strategaeth hon.

Mae ein hasesiad effaith yn cwmpasu'r canlynol:



Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb



Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg



Hawliau plant

Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Nodweddion Gwarchodedig

Canfu'r Aseiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb y bydd ein blaenoriaethau strategol yn cael effaith gadarnhaol ar bobl y nodwyd fod ganddynt nodweddion gwarchodedig. Mae'r Awdurdod Lleol yn comisiynu gwasanaethau'n benodol ar gyfer **pobl hŷn** y mae eu hanghenion cymorth tai yn gysylltiedig â mynd yn hŷn, yn ogystal â gwasanaethau i **bobl ifanc** sy'n wynebu risg o ddod yn ddigartref neu sy'n profi digartrefedd. Yn yr un modd, mae'n comisiynu gwasanaethau i bobl ag **anableddau a / neu gyflyrau hirdymor**, oll gan amcanu at gynnal tenantiaethau ac osgoi digartrefedd.

Effeithiau Amgylcheddol

Mae Cyngor Sir Penfro wedi ymrwymo i Gynllun Carbon Sero Net erbyn 2030, sy'n cynnwys ymrwymadau ar gyfer codi tai newydd ac adnewyddu tai presennol yn y stoc tai cyngor. Byddwn yn mynd ati'n rhagweithiol i hyrwyddo manteision technolegau ar gyfer cartrefi sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ymhlith partneriaid tai a landlordiaid yn y sector preifat, gan gynnwys hyrwyddo unrhyw gynlluniau grant / addasu perthnasol. Bydd gwasanaethau cymorth y Rhaglen Cymorth Tai yn cynnwys cyngor ar effeithlonrwydd ynni lle bo hynny'n briodol.

Y Gymraeg

Mae'r Cyngor yn darparu **cyfleoedd i bobl ddefnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg**, gan beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, mae'n cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac mae'n creu cysylltiadau â strategaethau iaith Gymraeg mewnol ac allanol. Nid ydym ar hyn o bryd yn comisiynu gwasanaethau sydd wedi'u hanelu'n benodol at y nodwedd warchoddedig hon; fodd bynnag, mae cyngor, cynhorthwy a chymorth ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg fel cynnig gweithredol.

Lle caiff gwasanaethau eu comisiynu fel rhan o gyflawni'r strategaeth, ni fyddwn yn trin tendrau a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendrau a gyflwynir yn Saesneg. Os byddwn yn cynnal cyfweiliadau mewn perthynas â dyfarnu'r tendr, byddwn yn rhoi'r cyfle i dendrwy'r gael eu cyfweld yn Gymraeg. Pan gyflwynir tendrau yn Gymraeg byddwn yn rhoi gwybod i dendrwy'r am ein penderfyniad yn Gymraeg.

Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant

Mae ein gwasanaethau Tai a Chymorth Tai yn mynd i'r afael ag anghenion cymorth y plant a'r oedolion mwyaf **agored i niwed** yn y sir. Bydd y blaenoriaethau strategol yn cyfrannu at amcan troswaol y Cyngor sef bod pob **plentyn a pherson ifanc yn cael y dechrau gorau mewn bywyd a'u bod yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus**. Mae'r blaenoriaethau strategol wedi'u bwriadu i sicrhau bod yr holl wasanaethau wedi'u harfogi i gefnogi'r rhai sy'n wynebu risg o ddigartrefedd neu sydd eisoes yn ddigartref.

Mae ein hymrwymiad yn y Strategaeth hon i gryfhau ein dull rhianta corfforaethol mewn perthynas ag anghenion llety pobl ifanc 'â phrofiad o fod mewn gofal' yn y dyfodol yn diogelu hawliau plant a phobl ifanc yr ydym yn gyfrifol amdanynt ymhellach.



Gweithredu, Monitro ac Adolygu'r Strategaeth

Mae Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru yn nodi yn yr adroddiad Mynd i'r Afael â Digartrefedd, Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth 2015 fel a ganlyn:



MAE'R DYSTIOLAETH YN DANGOS BOD DIGARTREFEDD YN BROBLEM GYMHELETH. YN AML, FE'I HACHOSIR GAN NIFER O FFACTORAU SY'N RHYNGWEITHIO Â'I GILYDD MEWN FFYRDD SY'N AMRYWIO AR Y LEFEL UNIGOL AC SY'N GOFYN AM YMGYSYLLTU Â SAWL MAES POLISI.



Mae'r achosion sylfaenol sy'n arwain at ddigartrefedd a/neu anghenion cymorth tai amlwg ymhlith unigolion ac aelwydydd sy'n agored i niwed wedi'u cydgysylltu'n ddwfn. Mae gweithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus yn dibynnu'n sylfaenol nid yn unig ar yr hyn y gall y Cyngor ei wneud, ond ar ein hymdrechion i gydlynu gwasanaethau, cynllunio ar y cyd, comisiynu a darparu gwasanaethau gan adrannau mewnol yr awdurdod lleol, partneriaid statudol a'r sector tai.

Yn ymarferol, mae'r dull cydweithredol hwn yn cael ei gyflawni yn Sir Benfro trwy gyfranogi yn Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru sy'n cwmpasu ardaloedd Byrddau Iechyd Prifysgol Hywel Dda a Phowys. Er nad yw'r Cyngor Sir yn uniongyrchol atebol i'r Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol, mae'r strwythurau rhanbarthol yn darparu fforwm ar gyfer rhannu arferion, lledaenu arfer effeithiol profedig a mynd i'r afael â chyfleoedd a heriau cyffredin. Mae hyn wedi cynnwys cydweithio ar ddatblygu strategaethau Rhaglenni Cymorth Tai lleol ledled y rhanbarth a bydd y Grŵp Cydweithredol Cymorth Tai Rhanbarthol hefyd yn goruchwyllo'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau rhanbarthol sy'n deillio o gynlluniau lleol.

Yn yr un modd, mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn darparu mecanwaith amlwg ar gyfer ymgysylltu ag iechyd, gofal cymdeithasol a phartneriaid eraill sy'n gyfrifol am ddarparu gofal a chymorth yn y Sir. Mae'n darparu fforwm delfrydol ar gyfer cydweithredu, er enghraifft wrth gomisiynu gwasanaethau sy'n hybu lles dinasyddion trwy ddarparu tai priodol a chymorth cysylltiedig. Mae cryfhau'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol ar hyn o bryd mewn ymateb i'r Papur Gwyn diweddar 'Ail-gydbwyso Gofal a Chymorth' (2021) a'r cyfleoedd cyllid cyfalaf a fydd ar gael yn gyfle i ddatblygu'r cysylltiadau hyn ymhellach, gan sicrhau bod gwasanaethau iechyd a gofal yn cyd-fynd â chymorth tai ac yn cefnogi dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Adlewyrchir hyn yn y camau gweithredu a nodwyd sy'n ategu'r blaenoriaethau strategol. Yn yr un modd, mae'r cyllid cyfalaf sydd ar gael trwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn ceisio darparu atebion integredig a chyffredin ar draws gwasanaethau tai, iechyd a gofal cymdeithasol, ac yn enwedig lle ceir anghenion tai â chymorth, mae'r maes ariannu hwn yn cynnig cyfleoedd.

Bydd y cysylltiadau presennol hefyd yn parhau gyda'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar gyfer Gwasanaethau Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Strategol a Chyflawni Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau a dulliau cymorth yn cyd-fynd â'i gilydd yn ogystal â gwneud y defnydd gorau posibl o'r adnoddau sydd ar gael.

Trwy'r dulliau hyn, gallwn uwchgyfeirio'r heriau o ran atal digartrefedd sy'n rhan o gyfrifoldeb cyrff eraill yn y sector cyhoeddus.

Mae Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai wedi'i llunio dros gyfnod o 4 blynedd a bydd ei gweithrediad yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys adolygiad ffurfiol ar ganol y cyfnod, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru, ar ôl 2 flynedd.

Bydd y Bwrdd Cynllunio Cymorth Tai, sy'n gyfrifol am gyflawni Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai ac adnoddau cysylltiedig o fewn y cyd-destun tai a digartrefedd ehangach, yn goruchwylio'r broses o weithredu'r Strategaeth. Bydd y Bwrdd yn monitro'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau ac yn cael adroddiadau ar ganlyniadau ac effaith. Mae'n cwrdd bob chwarter ac yn cael ei gadeirio gan y Pennaeth Cydgomisiynu Strategol ac mae'r Aelod Cabinet dros Dai a'r Pennaeth Tai a Diogelu'r Cyhoedd yn mynychu ei gyfarfodydd.

Ceir rhyngweithio rheolaidd hefyd gyda Bwrdd Cynghori Cenedlaethol y Grant Cymorth Tai, y cynrychiolir pob awdurdod lleol ledled Cymru arno. Mae'r Rhwydwaith Cymorth Tai'n fforwm pwysig arall, gan hyrwyddo dulliau Cymru gyfan o ymdrin â digartrefedd a'i gwneud yn bosibl rhannu profiadau a gwybodaeth yn ogystal â threfnu hyfforddiant a datblygiad ar gyfer staff perthnasol.

Ffynonellau Cyllid

Bydd gweithredu'r Strategaeth hon a chyflawni yn erbyn y blaenoriaethau strategol a nodwyd yn gofyn am fuddsoddiad sylweddol.

Daw hyn o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys:

- £3.7m oedd cyfanswm y dyraniad Grant Cymorth Tai i'r rhanbarth yn 2021-22. Cadarnhawyd yr un swm ar gyfer y tair blynedd ariannol nesaf
- O Gronfa Gyffredinol y Cyngor ar gyfer digartrefedd
- Grantiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys y Grant Tai Cymdeithasol, y Grant Atal Digartrefedd

Cam 1 a 2 y Gronfa Cadernid Economaidd a'r Gronfa Galedi, a sefydlwyd yn sgil pandemig Covid-19

Caiff dyraniad adnoddau i gefnogi camau gweithredu penodol ei benderfynu'n derfynol pan fydd y Strategaeth yn cael ei gweithredu ac, ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Tai, bydd hynny'n cael ei adlewyrchu yng Nghynllun Cyflawni'r Grant Cymorth Tai sydd ar ddod. Fodd bynnag, bydd yn bwysig i bartneriaid ganolbwyntio ar gydweithio, yn enwedig yn y meysydd mwy cymhleth a cheisio cyfuno cyllid er mwyn cynyddu adnoddau i'r eithaf.

Ein barn ni yw bod angen mwy o fuddsoddiad ar Sir Benfro na'r hyn sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd i'n helpu i ddiwallu'r angen mewn ffordd mor gynhwysfawr ac amserol â phosibl a byddwn yn parhau i drafod hyn gyda Llywodraeth Cymru – yn enwedig gan bod ailddosbarthiad arfaethedig arian y Grant Cymorth Tai ledled Cymru wedi'i atal oherwydd y pandemig a bod y penderfyniad i roi 30% yn ychwanegol i bob awdurdod lleol wedi gwneud dim byd ond cynyddu'r bwch ariannu ar gyfer Sir Benfro.

Rhaid sicrhau hefyd bod yr adnoddau y mae eu hangen i gyflawni uchelgeisiau'r cynllun hwn ar gael ar draws yr holl sectorau a phortffolios perthnasol. Er enghraifft, bydd gwella ymateb system gyfan i anghenion camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyddigwydd yn gofyn am adnoddau system gyfan rhwng y Byrddau Cynllunio Ardal perthnasol, y Bwrdd Iechyd, Gofal Cymdeithasol i Oedolion, y Bwrdd Iechyd yn ogystal â'r Grant Cymorth Tai.

Atodiad A: Cynllun Gweithredu

Blaenoriaeth Strategol 1

Cryfhau gwasanaethau ymyrryd yn gynnar ac atal a chymorth arbenigol i atal digartrefedd.

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 1 Datblygu gwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal Digartrefedd	1a) Datblygu ein cynnig Atal ac Ymyrryd yn Gynnar i bobl ifanc trwy ddarparu mwy o weithdai gydag ysgolion a cholegau i baratoi PPHl ar gyfer tenantiaethau yn y dyfodol – gan flaenoriaethu pob ysgol uwchradd.	Blwyddyn 1	Rheolwr y Tîm Cymorth Ieuenctid (TCI) – Cysylltiadau â'r Rhaglen Gwaith i Bobl Ifanc sy'n Ddigartref (Grant Cymorth Ieuenctid)	Mae'r ystod o wasanaethau atal a gomisiynwyd yn diwallu anghenion dinasyddion Sir Benfro ac yn eu hatal rhag gorfod cael mynediad at wasanaethau statudol Lleihad mewn digartrefedd ymhlith pobl ifanc trwy ddatblygu pecynnau addysg a mwy o wybodaeth i bobl ifanc ynghylch tai a digartrefedd
	1b) Trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a defnyddwyr gwasanaethau – archwilio'r gwaith o ddatblygu a chomisiynu arlwy cyfryngu/datrys gwrthdaro.	Blwyddyn 2	Swyddog Arweiniol y Grant Cymorth Tai (GCT) Rheolwr y GCC	Mwy o ymwybyddiaeth amlwg ymhlith pobl ifanc o ffactorau sy'n cyfrannu at faterion tai a digartrefedd, gydag ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau
	1c) Mynd ati'n barhaus i geisio gwella ein harlwy gwybodaeth, cyngor a chynhorthwy – gan ganolbwyntio ar Atal ac Ymyrryd yn Gynnar i wneud hyn yn fwy gweladwy a hygyrch i bawb.	Blwyddyn 1	Swyddog Cyswllt â Chwsmeriaid	

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 1 Datblygu gwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal Digartrefedd	1d) Datblygu cysylltiadau â grwpiau cymunedol sefydledig trwy ein perthynas â'r Hyb Cymunedol a bod yn rhan o'r sesiynau galw heibio rheolaidd i gynnig GCaCh mewn perthynas â thai.	Blwyddyn 1	Swyddog Arweiniol y GCT. Rheolwr y Tîm Cyngor ar Dai. Swyddog Arweiniol yr Hyb Cymunedol	Mae'r ystod o wasanaethau atal a gomisiynwyd yn diwallu anghenion dinasyddion Sir Benfro ac yn eu hatal rhag gorfod cael mynediad at wasanaethau statudol
	1e) Adolygu a cheisio cryfhau ein dull rhianta corfforaethol mewn perthynas ag anghenion llety plant a phobl ifanc 'â phrofiad o fod mewn gofal' yn y dyfodol mewn ymateb i lythyr diweddar gan Lywodraeth Cymru at bob ALI yng Nghymru.	Blwyddyn 3	Swyddog Arweiniol y GCT Rheolwr y GCC Rheolwr Gwasanaeth (TRhC)	Lleihad mewn digartrefedd ymhlith pobl ifanc trwy ddatblygu pecynnau addysg a mwy o wybodaeth i bobl ifanc ynghylch tai a digartrefedd
	1f) Parhau i ddarparu Rhaglenni 'Sgiliau Tenantiaeth Amgylchedd Dysgu Rhithwir' i gefnogi cynaliadwyedd tenantiaeth i bobl 16-25 oed.	Blwyddyn 1	Rheolwr y TCI	Mwy o ymwybyddiaeth amlwg ymhlith pobl ifanc o ffactorau sy'n cyfrannu at faterion tai a digartrefedd, gydag ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau
	1g) Adolygu'r arlwy bresennol ar gyfer ein gwasanaeth llety brys, brysbennu a chymorth brys, a cheisio datblygu a chynyddu ein harlwy i'r rhai y mae arnynt angen mynediad at y gwasanaeth a'r llety.	Blwyddyn 1, 2 a 3	Swyddog Arweiniol y GCT. Prif Swyddog Tai.	

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 1 Datblygu gwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal Digartrefedd	1h) Datblygu rhaglen hyfforddiant craidd ar gyfer yr holl staff gofal cymdeithasol a thai perthnasol gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu perthnasoedd gweithredol agosach ac osgoi argyfwng sy'n dwysáu, h.y. hyfforddiant dyfarniad Southwark.	Blwyddyn 1 a 2	Rheolwr Datrysiadau Tai. RhDGCC	
	1i) Archwilio'r potensial ar gyfer asesiadau cyn-denantiaeth i nodi tenantiaid sy'n agored i niwed gyda'r bwriad o dargedu cymorth i'w galluogi i gynnal eu cartrefi a lleihau'r risg o fethiant tenantiaeth.	Blwyddyn 1	Swyddog Porth y GCT Rheolwyr Tîm Rheoli Ystadau Rheolwr y TCI Swyddog Arweiniol yr Hyb Cymunedol Rheolwr Partneriaeth Strategol a Chynhwysiant (BIPHDd)	Mae'r ystod o wasanaethau atal a gomisiynwyd yn diwallu anghenion dinasyddion Sir Benfro ac yn eu hatal rhag gorfod cael mynediad at wasanaethau statudol Lleihad mewn digartrefedd ymhlith pobl ifanc trwy ddatblygu pecynnau addysg a mwy o wybodaeth i bobl ifanc ynghylch tai a digartrefedd
	1j) Archwilio rôl trefniadau 'cadw mewn cysylltiad' i helpu pobl i gynnal eu tenantiaethau a chyfyngu ar nifer y tenantiaethau 'newydd' sy'n methu.	Blwyddyn 1	Swyddog Porth y GCT. Rheolwyr Tîm Rheoli Ystadau. Rheolwr y TCI. Rheolwr Datrysiadau Tai.	Mwy o ymwybyddiaeth amlwg ymhlith pobl ifanc o ffactorau sy'n cyfrannu at faterion tai a digartrefedd, gydag ymwybyddiaeth o'u hawliau a'u cyfrifoldebau

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 2 Cymorth ar gyfer iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau – datblygu cydweithio ehangach ar faterion sy'n cyd-ddigwydd	2a) Cwblhau adolygiad gyda Darparwyr Gwasanaethau a Defnyddwyr Gwasanaethau i sicrhau eu bod yn bodloni meini prawf cymhwystra'r Grant Cymorth Tai.	Blwyddyn 1, 2 a 3	Swyddog Arweiniol y GCT	Mwy o weithio mewn partneriaeth Mynediad gwell at wasanaethau cymorth tai ac atal digartrefedd trwy feithrin perthynas â'r gwasanaeth iechyd, y gwasanaeth prawf, y gwasanaethau cymdeithasol a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a mynd ati ar y cyd gydag asiantaethau partner allweddol i adolygu a datblygu arferion a phrosesau gwaith.
	2b) Bydd Tîm y GCT yn gweithio'n agos gyda'r TIMC a'r TCAC i sicrhau bod yr asiantaeth broffesiynol briodol yn cynnal yr adolygiad pan fo gan Ddefnyddiwr Gwasanaethau Gynllun Gofal a Thriniaeth.	Blwyddyn 1	Swyddog Arweiniol y GCT Rheolwr y TIMC Rheolwr y TCAC	
	2c) Datblygu pecynnau cymorth newydd ar gyfer pobl sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth tai sy'n galluogi annibyniaeth	Blwyddyn 2	Swyddog Arweiniol y GCT	
	2d) Archwilio a datblygu mwy o gyfle i roi cymorth galw heibio i bobl â hwyliau isel ac iechyd meddwl lefel isel o fath arall.	Blwyddyn 2	Swyddog Arweiniol y GCT	
	2e) Gweithio gyda'r Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol i ddatblygu protocol rhyddhau, fel na chaiff unrhyw un ei ryddhau heb lety a chymorth addas.	Blwyddyn 1	Swyddog Arweiniol y GCT Tîm Rhyddhau ar y Cyd Rheolwr Cyflenwi Gwasanaethau (Llif Cleifion) - BIPHDd	Bydd canlyniadau'n cael eu dangos trwy gyfradd is o ran tenantiaethau'n methu neu droi tenantiaid allan o Dai Cymdeithasol neu ddarparwyr llety â chymorth/ llety brys, llai o ddigartrefedd a llai o risg i'r gymuned
	2f) Archwilio rhwystrau i gael mynediad at wasanaethau ar gyfer cwsmeriaid sy'n dod yn ddigartref oherwydd materion Iechyd Meddwl a Chamddefnyddio Sylweddau gan gynnwys y posibilrwydd o ddefnyddio modelau llety a rennir.	Blwyddyn 2	Swyddog Cyswllt â Chwsmeriaid Swyddog Arweiniol y GCT Swyddog Arweiniol yr Hyb Cymunedol	

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 3 Cymorth i bobl ifanc gan gynnwys dull rhianta corfforaethol gwell mewn perthynas ag anghenion llety yn y dyfodol	3a) Comisiynu eiddo arall â 3 ystafell wely er mwyn adleoli'r llety dynion ifanc i eiddo sydd â mwy o le cymunol.	Blwyddyn 2	Swyddog Arweiniol y GCT	Ymateb cyflym i ddiwyddiadau neu risgiau unigol o ddiartrefedd ymhlith pobl ifanc Gostyngiad yn y bobl ifanc sy'n dod yn ddiartref
	3b) Datblygu llety â chymorth pellach gan gynnwys LHDT+	Blwyddyn 3	Rheolwr y TCI Rheolwr y GCC Rheolwr Grŵp y GCT Cynrychiolydd LCC y GCT	
	3d) Datblygu Gwasanaethau Cyfryngu/ Datrys Gwrthdaro annibynnol (Gweler Cam Gweithredu 1).	Blwyddyn 2	Rheolwr y TCI Rheolwr y GCC Swyddog Arweiniol y GCT	
Cam Gweithredu 4 Monitro ac ymateb i effaith y galw ar ôl y cyfyngiadau symud mewn perthynas â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.	4a) Datblygu grŵp amlasiantaeth i sicrhau bod dull mwy holistaidd ac ataliol yn cael ei fabwysiadu wrth ailgomisiynu gwasanaethau sy'n cynnwys gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai	Blwyddyn 2/3	Swyddog Arweiniol y GCT Rheolwr y Gwasanaeth Diogelu Integredig Rheolwr Adfywio Cymunedol	Mae gwasanaethau'n fwy ymatebol i anghenion amrywiol pobl sy'n profi Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
	4b) Sicrhau bod gwasanaethau sydd newydd eu comisiynu yn hyderus ac yn brofiadol wrth ddelio â heriau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau sy'n cyd-ddigwydd	Blwyddyn 2/3	Swyddog Arweiniol y GCT Rheolwr y TIMC Rheolwr y TCAC	
	4c) Sicrhau bod comisiynu yn ystyried anghenion y gymuned LHDT+	Blwyddyn 2/3	Swyddog Arweiniol y GCT	

Blaenoriaeth Strategol 2

Sicrhau bod pobl sy'n ddigartref neu sydd dan fygythiad o fod yn ddigartref yn cael mynediad at y cartref cywir ar yr adeg gywir ac yn y lle cywir, fel rhan o'n dull Ailgartrefu'n Gyflym.

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 5 Darparu llety addas tuag at ailgartrefu'n gyflym ac ymateb i'r 'normal newydd'.	5a) Defnyddio canllawiau polisi LIC i gynnal adolygiad o Weithrediad Ailgartrefu'n Gyflym	Blwyddyn 3	Prif Swyddog Tai	Cynnydd yn y cyflenwad o lety o fforddiadwy o ansawdd da yn y sector rhentu, gan gynyddu dewisiadau tai i aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd.
	5b) Adolygu'r polisi dyraniadau cyfredol. Cytuno a gweithredu newidiadau i bolisi gyda phartneriaid sy'n LCC i gefnogi proses bontio i fodel Ailgartrefu'n Gyflym.	Blwyddyn 2	Prif Swyddog Tai	
	5c) Lleihau rhwystrau i osod i denantiaid ar fudd-daliadau trwy becyn cyfathrebu/ datganiad i'r wasg wedi'i dargedu.	Blwyddyn 2	Prif Swyddog Tai Swyddog Cyswllt Cwsmeriaid	
Cam Gweithredu 6 Adolygu effaith Covid ar y defnydd o lety dros dro, yn enwedig gwely a brechwast.	6a) Cynnal adolygiad o ddefnyddio llety dros dro.	Blwyddyn 2	Prif Swyddog Tai	Cynllun i leihau'r defnydd o lety gwely a brechwast a llety dros dro anaddas.
	6b) Parhau i fapio anghenion cymorth y rhai mewn llety Gwely a Brechwast/Llety â Chymorth i allu cynllunio opsiynau priodol ar gyfer symud ymlaen.	Blwyddyn 1	Prif Swyddog Tai	
	6c) Cynyddu'r ddarpariaeth llety â chymorth i leihau'r defnydd o wely a brechwast, yn enwedig i ddefnyddwyr gwasanaethau ag anghenion cymhleth lluosog – gyda disgwyliadau hyblyg o ran symud ymlaen.	Blwyddyn 2	Prif Swyddog Tai Swyddog Arweiniol y GCT	
	6d) Lleihau niferoedd y bobl mewn llety gwely a brechwast.	Blwyddyn 3	Prif Swyddog Tai	

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 7 Cynyddu mynediad at y Sector Rhentu Preifat	7a) Datblygu a chynnig hyfforddiant 'Parod am Denantiaeth' i ddarparu denantiaid 25+ oed i gynyddu i'r eithaf y siawns o gynnal tenantiaethau (Cam Gweithredu 1 ar gyfer pobl 16-25 oed).	Blwyddyn 2	Fforwm Darparwyr y GCT Rheolwr YHG Swyddog Arweiniol y GCT	Cynnydd yn nifer yr aelwydydd digartref y mae eu digartrefedd yn cael ei atal neu ei leddfu trwy ddarparu tenantiaeth rhentu preifat. Nifer yr unedau eiddo a roddwyd ar brydles i'r ALI gan landlordiaid preifat.
	7b) Datblygu perthnasoedd gweithio agosach ag asiantaethau gosodiadau a landlordiaid preifat i gynyddu nifer y tenantiaethau a gynigir i bobl sy'n wynebu digartrefedd yn y sector rhentu preifat.	Blwyddyn 1	Swyddog Cyswllt â'r Sector Rhentu Preifat	
	7c) Codi ymwybyddiaeth o Gynllun Prydlesu Sector Rhentu Preifat LIC i asiantaethau gosodiadau a landlordiaid yn y sector rhentu preifat a'r manteision y gall hwn eu cynnig i'r Awdurdod Lleol, landlordiaid a phobl sy'n wynebu digartrefedd.	Blwyddyn 1	Swyddog Cyswllt â'r Sector Rhentu Preifat	

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 8 Sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu i wella'r broses o symud ymlaen o lety dros dro.	8a) Parhau i sicrhau bod datblygiadau newydd yn ystyried ac yn darparu ar gyfer anghenion tai asessedig.	Blwyddyn 2	Rheolwr y Sector Preifat a'r Strategaeth Tai	Mwy o gyflenwad o lety fforddiadwy anghenion cyffredinol i gael ei osod trwy Gyngor Sir Penfro.
	8b) Sefydlu 'prif' raglen a rhaglen 'wrth gefn' ar gyfer datblygu iach sy'n cyfrannu at ddatblygu mwy o gartrefi fforddiadwy – yn enwedig unedau eiddo ag 1 ystafell wely.	Blwyddyn 2/3	Rheolwr y Sector Preifat a'r Strategaeth Tai. Y Rheolwr Datblygu a Chadwraeth.	Bydd nifer yr unedau tai fforddiadwy a gwblhawyd gan y LLC sy'n bartneriaid i ni'n dangos cynnydd blynyddol trwy gydol oes y Strategaeth hon gyda ffocws ar lety ag 1 ystafell wely.
	8c) Sicrhau bod trefniadau a.106 ar gyfer datblygwyr preifat fel a nodwyd yn y CDLI yn cyfrannu at nodau'r Strategaeth hon.	Blynyddoedd 1/2/3	Rheolwr y Sector Preifat a'r Strategaeth Tai. Y Rheolwr Datblygu a Chadwraeth.	
Cam Gweithredu 9 Sicrhau bod yr ystod o lety yn cael ei ehangu i ddiwallu'r angen presennol ac yn y dyfodol (llety cyffredinol a llety â chymorth)	9a) Datblygu a Gweithredu strategaeth symud ymlaen newydd gyda mewnbwn penodol gan ddarparwyr a rhannau perthnasol o'r Cyngor (tai, datblygu tai, gwasanaethau cymdeithasol) a'n partneriaid e.e. y GIG/ Y Gwasanaeth Prawf.	Blwyddyn 2	Y Prif Swyddog Tai Cadeirydd Fforwm y GCT Grŵp Cynllunio'r GCT	Nifer uwch o ddewisiadau tai hyblyg i grwpiau targed.

Blaenoriaeth Strategol 3

Cryfhau gwasanaethau Cymorth Tai ymhellach.

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
<p>Cam Gweithredu 10</p> <p>Adolygu ein trefniadau cytundebol gyda darparwyr cymorth gyda golwg ar leihau biwrocratiaeth a gwella sicrwydd ariannol – gan hybu hyblygrwydd ac arloesi, a lleihau prosesau gweinyddol.</p>	<p>10a) Darparu ymrwymiad ariannu tymor hwy, wrth gomisiynu gwasanaethau, yn unol â dyraniad cyllid 3 blynedd Grant Cymorth Tai Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn bosibl cyllunio'n well a chadw staff.</p>	Blwyddyn 1/2/3	Swyddog Arweiniol y GCT Grŵp Cynllunio'r GCT	Gostyngiad amlwg wedi'i nodi mewn biwrocratiaeth ddiangen a thasgau heblaw rhoi cymorth gan ddarparwyr.
	<p>10b) Llety Brys/Llety â Chymorth yn cael blaenoriaeth ar gyfer symud ymlaen lle y bo'n briodol – gan weithredu polisi camu i fyny/camu i lawr i gefnogi cynaliadwyedd tenantiaethau (gweler Cam Gweithredu 9).</p>	Blwyddyn 2	Prif Swyddog Tai	Rhoddir cymorth mewn amrywiaeth o ffyrdd a thrwy amrywiaeth o ddulliau (e.e. wyneb yn wyneb, yn rhithwir ac o bell), gan sicrhau bod cymorth yn fwy hygyrch, ymgysylltiol ac amserol, gan ddiwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau.
	<p>10c) Cael gafael ar hyfforddiant a'i gynnis i staff a ariennir â'r GCT; e.e. ymwybyddiaeth o hunanladdiad, hyfforddiant iechyd meddwl, hyfforddiant ar ddeddfwriaeth tai.</p>	Blynyddoedd 1/2/3	Swyddog Arweiniol y GCT Cadeirydd Fforwm y GCT RhDGGC	
	<p>10d) Datblygu sgiliau cynhwysiant digidol ar draws gwasanaethau yn ogystal â'r bobl yr ydym yn eu cefnogi – gan gysylltu â Cymunedau Digidol Cymru a'r Rhaglen Cysylltiadau Digidol.</p>	Blynyddoedd 1/2/3	Swyddog Cymorth Cymunedau Digidol Swyddog Cyswllt â Chwsmeriaid Cynrychiolydd LCC y GCCT	
	<p>10e) Byddwn yn gweithio gyda'n darparwyr a phobl sy'n defnyddio gwasanaethau – i fyfyrion ar y cyd ynghylch ffyrdd newydd o weithio – o ganlyniad i'r pandemig.</p>			Mae staff a phobl yn y gymuned yn gallu ymgysylltu'n ddigidol a gellir diwallu eu hanghenion yn weithredol trwy'r dulliau hyn.
	<p>10f) Gan ddefnyddio'r gwersi a ddysgwyd o'r uchod, hybu ffyrdd newydd o weithio er mwyn moderneiddio'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu yn y dyfodol i sicrhau eu bod yn fwy hygyrch, ymatebol a chynhwysol.</p>			

Blaenoriaeth Strategol 4

Cydweithio i ddarparu cymorth holistaidd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gydag ymyriadau arbenigol effeithiol lle bo angen.

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 11 Byddwn yn adolygu ein holl wasanaethau presennol i sicrhau ein bod ni, ynghyd â'n sefydliadau partner, yn comisiynu gwasanaethau yn unol â'r blaenoriaethau a amlinellir yn y strategaeth hon.	11a) Byddwn yn adolygu ein holl wasanaethau a gomisiynwyd gyda'r GCT dros oes y strategaeth. Mae blaenoriaethau ar gyfer adolygu yn y 12 mis cyntaf yn cynnwys: Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwasanaethau Pobl Hŷn Cymorth Arnofiol Iechyd Meddwl.	Blwyddyn 1	Swyddog Arweiniol y GCT	Mae ein gwasanaethau'n addas ar gyfer y diben ac yn cyd-fynd â'n gweledigaeth a'n strategaeth.
Cam Gweithredu 12 Gwella ymatebion amlasiantaeth a gweithio o fewn y system	12a) Sicrhau trosolwg amlasiantaeth ar gyfer Strategaeth a chamau gweithredu'r Rhaglen Cymorth Tai, gan sicrhau bod mecanweithiau monitro yn eu lle a bod cysylltiadau'n cael eu cynnal â grwpiau a fforymau strategol allweddol.	Blwyddyn 1/2/3	Pennaeth Comisiynu Pennaeth Interim Gwasanaethau Tai a Diogelu'r Cyhoedd Grŵp Cynllunio Cymorth Tai	Llety amrywiol i ddiwallu'r ystod o anghenion sy'n do di sylw yn ogystal â chynyddu unedau fforddiadwy. Cyfarfodydd rheolaidd parhaus i annog pob asiantaeth i roi cymorth gyda materion sy'n effeithio ar / yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd.
	12b) Sefydlu a chynnal is-grwpiau o'r bartneriaeth tai strategol i barhau i archwilio'r holl gyfleoedd i gynyddu tai fforddiadwy i'r eithaf i ddiwallu anghenion lleol.	Blwyddyn 1/2/3		
	12c) Hybu a hyrwyddo'r defnydd o gyfarfodydd partneriaeth i sicrhau ymatebion amlasiantaeth effeithlon i faterion amlweddol a wynebir a chefnogi canlyniadau llwyddiannus.	Blwyddyn 1		Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai effeithiol ac arloesol yn cael eu comisiynu a'u darparu.

Strategaeth y Rhaglen Cymorth Tai 2022-26

Cam Gweithredu	Gweithgareddau sy'n ofynnol i gyflawni'r flaenoriaeth	Graddfeydd Amser/ Erbyn Pryd	Swyddog Cyfrifol	Canlyniadau Bwriadedig
Cam Gweithredu 12 Gwella ymatebion amlasiantaeth a gweithio o fewn y system	12d) Sicrhau bod Fforymau Darparwyr GCT rheolaidd yn cael eu cynnal i rannu arfer gorau ar draws yr holl asiantaethau amrywiol ac i roi diweddariadau cyson am bolisiâu a gweithdrefnau'r GCT/Tai.	Blwyddyn 1	Swyddog Arweiniol y GCT	Llety amrywiol i ddiwallu'r ystod o anghenion sy'n do di sylw yn ogystal â chynyddu unedau fforddiadwy. Cyfarfodydd rheolaidd parhaus i annog pob asiantaeth i roi cymorth gyda materion sy'n effeithio ar / yr effeithir arnynt gan ddigartrefedd.
	12e) Datblygu hyfforddiant, diweddariadau a briffiadau ar gyfer staff a darparwyr i aros gyfuwch â datblygiadau mewn gwasanaethau, arfer da, arloesi ac arferion newydd trwy sesiynau hyfforddi ar y cyd, Grŵp Cynllunio'r GCT, a ffora lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.	Blwyddyn 1	Swyddog Arweiniol y GCT Cynrychiolydd LCC y GCCT	Mwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth i sicrhau bod gwasanaethau cymorth sy'n gysylltiedig â thai effeithiol ac arloesol yn cael eu comisiynu a'u darparu.
	12f) Gweithio gyda LCC i leihau rhwystrau i ddiffinio sut y gallwn fynd ati ar y cyd i gefnogi cwsmeriaid/ aelwydydd sy'n wynebu digartrefedd posibl.		Cydlynnydd Datblygu Rhanbarthol Swyddog Arweiniol y GCT Rheolwr y GCC	
	12g) Adnabod trefniadau ariannu ar y cyd gyda phartneriaid ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau sy'n galw am fewnbwn gan y GIG, Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a'r Gwasanaeth Prawf.			

Atodiad B: Y Dirwedd o ran Polisiau Cenedlaethol

Mae'r dirwedd esblygol o ran polisiau digartrefedd wedi cynnwys:

- Cyhoeddi 'Atal Digartrefedd a Hybu Annibyniaeth' yn 2016 – sydd yn ei hanfod yn llwybr at annibyniaeth economaidd i bobl ifanc trwy gyngor ar dai, dewisiadau tai ac atal digartrefedd.
- Cyflwyno'r trefniadau 'Pan Fydda i'n Barod' yn 2016 o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a alluogodd bobl ifanc mewn gofal maeth i aros gyda'u gofalywyr y tu hwnt i 18 oed.
- Barnardo's yn cyhoeddi'r Fframwaith Llety a Chymorth ar gyfer y Rhai sy'n Gadael Gofal yn 2016 gyda'r nod o roi cymorth i gynllunio a darparu tai a chymorth i bobl ifanc a'r rhai sy'n gadael gofal mewn modd effeithiol.
- Cyflwyno 'Tai yn Gyntaf' gan Lywodraeth Cymru, sef dull o roi terfyn ar ddigartrefedd sy'n canolbwyntio ar symud pobl sy'n profi digartrefedd yn gyflym i dai annibynnol, parhaol a darparu cymorth a gwasanaethau ychwanegol yn ôl yr angen.
- Pwyslais o'r newydd, mewn ymateb i bandemig Covid-19, ar leihau digartrefedd ar y stryd trwy ddarparu atebion o ran llety dros dro, gan arwain at gyhoeddi canllawiau cynllunio Cam 2 gan Lywodraeth Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol a'u partneriaid gynllunio i sicrhau bod pawb sy'n dod i mewn i lety dros dro yn cael cymorth i symud i lety hirdymor, bod y pwyslais yn parhau i fod ar atal a chadw digartrefedd yn brofiad prin, byr ac un na chaiff ei ailadrodd.
- Canllawiau cynllunio Cam 3 (2020) sy'n cefnogi'r gwaith o ddylunio a datblygu gwasanaethau cadarn a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.
- Cyfres o ymgyrchoedd â ffocws pendant gan gynnwys Ymgyrch Dileu Digartrefedd leuenctid Cymru 2018, gan ganolbwyntio ar anghenion y gymuned LHDT+, cefnogi'r rhai â materion iechyd meddwl a lleihau'r cysylltiadau rhwng digartrefedd, ymddieithrio addysgol a'r system ofal.

- Buddsoddiad ychwanegol sylweddol gan Lywodraeth Cymru, yn nodedig £10m yn 2019-20 i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc trwy wella'r ddarpariaeth bresennol a datblygu gwasanaethau newydd; a lansio cronfa arloesi werth £4.8m yn 2019-20 i gynorthwyo 26 o brosiectau ledled Cymru i fabwysiadu dulliau newydd ac arloesol lle mae cymorth tai yn y cwestiwn.
- Adroddiad i Lywodraeth Cymru gan y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd yn 2020 yn darparu safbwynt polisi hollataidd ar gyfer rhoi terfyn ar ddigartrefedd ac ymateb y Llywodraeth ar ffurf dogfen ymgynghori yn dwyn y teitl 'Rhoi terfyn ar ddigartrefedd: Cynllun gweithredu lefel uchel: 2021-2026', gan adeiladu ar ganllawiau cynllunio Cam 2.
- Gofyniad ar Awdurdodau Lleol i gwblhau Cynllun Pontio Ailgartrefu'n Gyflym erbyn mis Medi 2022.



Cyngor Sir Penfro

Neuadd y Sir

Hwlfordd

Sir Benfro

SA61 1TP

Ebost: enquiries@pembrokeshire.gov.uk

Ffon: 01437 764551